

# Cyngor Nursio a Bydwreigiaeth

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017–2018 a Chynllun Strategol 2018–2019



## **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth**

### **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-2018 a Chynllun Strategol 2018-2019**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-2018 a Chynllun Strategol 2018-2019 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

*Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 5 Tachwedd 2018*

**© Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2018)**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.nmc.org.uk](http://www.nmc.org.uk)

ISBN 978-1-5286-0831-2

CCS1018757056 11/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Rhagair .....	5
Ein rôl.....	6
Ein perfformiad yn 2017-2018.....	8
Cynllun Strategol 2018-2019 .....	20
Adolygiad ariannol .....	24
Adroddiad cydnabyddiaeth .....	26
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon .....	34
Datganiad llywodraethu blynyddol .....	36
Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth .....	50
Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd .....	53
Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 .....	57
Y Fantolen ar 31 Mawrth 2018.....	58
Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.....	59
Cysoni incwm net/(gwariant) â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu.....	60
Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo.....	61
Nodiadau i'r Cyfrifon .....	62
The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010.....	88



## Rhagair

Bu'r 18 mis diwethaf yn gyfnod heriol ac yn gyfnod o newid i'r NMC. Mae dau adroddiad allanol diweddar wedi tanlinellu'r angen i roi cleifion a'r cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn: Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) ac Adroddiad Panel Annibynnol Gosport.

Datgelodd yr adroddiadau hyn ddiffygion yn y ffordd y gwnaethom drin teuluoedd oedd mewn profedigaeth. Gwyddom i'n gweithredoedd ychwanegu at eu gofid ac ymddiheurwn o waelod calon am hynny. Rydym wrthi'n cymryd camau breision er mwyn adlewyrchu ein gwerthoedd yn well drwy roi pobl yn gyntaf a bod mor dryloyw â phosibl ym mhopeth a wnawn.

Bydd ein dull newydd o asesu addasrwydd i ymarfer hefyd yn helpu. Gwyddom fod ein prosesau yn wrthwynebol ac yn drafferthus, ac y gallant beri trallod i bawb dan sylw. Yn y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar leihau'r risgiau i ddiogelwch cleifion drwy annog nyrsys a bydwragedd i fod yn agored a dysgu o'u camgymeriadau. Byddwn yn cefnogi cleifion a theuluoedd yn well pan fyddant yn codi pryderon ac yn eu trin â thosturi a pharch.

Rydym eisoes yn cyrraedd 23 o 24 o Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol: felly mae gennym sylfaen gadarn i adeiladu arni. Mae ein Cyngor a'n cyflogeion yn benderfynol o wneud y gwelliannau pellach sydd eu hangen a gwneud hynny mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.

Bydd ein safonau addysg newydd uchelgeisiol, a lanswyd eleni, yn helpu nyrsys y dyfodol i roi gofal o'r radd flaenaf i gleifion ac yn llywio nyrsio i'r genhedlaeth nesaf. Mae safonau yr un mor uchelgeisiol hefyd yn cael eu datblygu i fydwragedd y dyfodol.

Rydym wrth ein bodd bod nyrsys a bydwragedd yn parhau i groesawu'r broses ailddilysu fel ffordd o ddangos eu proffesiynoldeb a'u bod yn parhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu proffesiwn newydd sbon cymdeithion nyrsio i'n cofrestr ar ddechrau 2019 ac mae'r gwaith paratoi yn mynd rhagddo.

Fel y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Interim a Chofrestrydd newydd, hoffem ddweud cymaint rydym yn gwerthfawrogi ymrwymiad ac ymroddiad parhaus ein cydweithwyr ar y Cyngor ac ar draws y sefydliad, ynghyd â chefnogaeth ein rhanddeiliaid ledled y pedair gwlad. Dyna sy'n rhoi'r hyder i ni gredu y gallwn gyflawni rôl y rheoleiddiwr rydym am fod - un sy'n rhoi cleifion a'r cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn.

Philip Graf  
Cadeirydd, NMC  
16 Hydref 2018

Sue Killen  
Prif Weithredwr Interim a Chofrestrydd,  
NMC  
16 Hydref 2018

## Ein rôl

- 1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol i Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn sicrhau budd i'r cyhoedd. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.
- 2 Amcan cyffredinol y Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau yw amddiffyn y cyhoedd, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol:
  - 2.1 Amddiffyn, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
  - 2.2 Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio.
  - 2.3 Hybu a chynnal safonau proffesiynol priodol ac ymddygiad nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwagedd.
- 3 Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:
  - 3.1 Cadw cofrestr o'r rhai sy'n bodloni ein gofynion ar gyfer cofrestru.
  - 3.2 Pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwagedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaedd.
  - 3.3 Cymryd camau i ymdrin ag unigolion lle mae amheuaeth ynghylch eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn yr ansawdd a'r safonau gofal a roddir gan nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwagedd.

## Ein gwerthoedd

- 4 Mae ein gwerthoedd corfforaethol yn llywio'r ffordd rydym yn cyflawni ein rôl.
  - 4.1 Rydym yn gwerthfawrogi pobl: credwn eu bod yn bwysig.
  - 4.2 Rydym yn gwerthfawrogi tegwch: rydym yn gyson ac yn sicrhau uniondeb.
  - 4.3 Rydym yn gwerthfawrogi tryloywder: rydym yn agored ac yn onest.
- 5 Ein nod yw rhoi ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn: yn ein holl benderfyniadau, polisiau a phrosesau ac yn ein holl ryngweithio ag eraill.

## Adolygiad Gwersi a Ddysgwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

- 6 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwyllo ein gwaith ac yn cynnal adolygiad o'n perfformiad bob blwyddyn.
- 7 Yn 2017, gofynnodd y Llywodraeth, gyda'n cefnogaeth, i PSA gynnal adolygiad o'r ffordd y gwnaethom ymdrin â phryderon am addasrwydd i ymarfer bydwagedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness. Codwyd y pryderon rhwng 2004 a 2014. Er tristwch mawr, yn ystod y cyfnod hwn, bu farw sawl baban a mam, y gellid bod wedi ei osgoi.



- 8 Rydym yn ddiolchgar i PSA am ei waith yn nodi gwersi ac i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r teuluoedd a wnaeth gyfrannu ac rydym yn benderfynol o ddysgu o'r hyn a ddywedwyd ganddynt.
- 9 Cafodd adroddiad PSA ei gyhoeddi ym mis Mai 2018. Derbyniwn yn llwyr y bu diffygion sylweddol yn y ffordd y gwnaethom ymdrin â'r achosion hyn. Ni wnaeth y ffordd y gwnaethom reoli'r achosion na'n dull o ymgysylltu â'r cleifion a'u teuluoedd adlewyrchu ein gwerthoedd fel sefydliad. Mae ein camgymeriadau wedi cael effaith drawmatig sylweddol ar gleifion a'u teuluoedd ac mae'n wirioneddol ddrwg gennym am hynny.
- 10 Derbyniwn y gwersi a nodwyd yn yr adolygiad yn llawn. Gwyddom fod angen i ni wneud mwy i wrando ar y bobl hynny sy'n ymwneud â'n prosesau a'n gweithdrefnau, ynghyd ag ymgysylltu â nhw mewn ffordd empathetig. Mae'n hynod bwysig ein bod yn cefnogi cleifion a theuluoedd yn well ac yn sicrhau ein bod yn deall yn iawn ac yn ystyried yn llawn y pryderon a godir ganddynt am nyrsys a bydwagedd.
- 11 Mae hefyd angen i ni ddangos ein bod yn barod i fod yn agored pan aiff pethau o le a'n bod yn dysgu o'n camgymeriadau. Rhaid i ni sicrhau bod cwynion yn cael eu hystyried yn gyfleoedd i ddysgu ac nad ydym yn ymateb iddynt mewn ffordd amddiffynnol.
- 12 Rydym wedi cymryd rhai camau uniongyrchol i ddechrau newid pethau. Gwnaethom ysgrifennu at y teuluoedd er mwyn ymddiheuro a chynnig cyfarfod â nhw os hoffent wneud hynny. Gwnaethom ddatgelu gwybodaeth nas darparwyd yn flaenorol, gan gynnwys barn gyfreithiol uwch gwmsler. Mae ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr wedi trafod yr adolygiad a'r gwersi a ddysgwyd gyda phob aelod o staff. Mae'r Tîm Gweithredol wedi trafod diwylliant a gwerthoedd y sefydliad yn sgil yr adolygiad ac wedi cytuno ar feysydd â blaenoriaeth a chamau gweithredu. Rydym yn achub ar bob cyfle i atgyfnerthu ein tri gwerth corfforaethol (pobl, tryloywder, tegwch) ymhlith cydweithwyr ar draws y sefydliad.
- 13 Rydym wedi ymrwymo i roi cleifion a'r cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn. Fe wnawn newid sylweddol i'r ffordd rydym yn gweithio yn y meysydd canlynol â blaenoriaeth:
  - Trin pawb sy'n dod i gysylltiad â ni â pharch a'u galluogi i ddilyn ein prosesau'n briodol.
  - Bod yn fwy tryloyw a sicrhau ein bod yn agored gyda phobl pan fydd pethau'n mynd o le.
  - Ymgorffori diwylliant o fod yn agored a dysgu drwy'r sefydliad cyfan.
- 14 Gwnawn adrodd yn rheolaidd ar ein hynt a'n camau gweithredu wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

### **Adroddiad Panel Annibynnol Gosport**

- 15 Cafodd yr adroddiad ar yr ymchwiliad annibynnol i farwolaethau a thriniaeth cleifion yn Ysbyty Coffa Rhyfel Gosport ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018. Mae'n

amllwg o adroddiad y Panel Annibynnol i ninnau ac eraill adael cleifion a'u teuluoedd i lawr yn ddifrifol. Mae'n ddrwg iawn gennym am y rôl y gwnaethom ei chwarae yn hynny o beth. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu gwersi o gamgymeriadau'r gorffennol ac wedi ystyried yr adroddiad yn ofalus er mwyn gweld pa gamau y mae angen i ni eu cymryd a pha wersi y gallwn eu dysgu fel sefydliad. Mae yna bethau sy'n debyg i'r Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd ac mae adroddiad y Panel Annibynnol wedi tanlinellu'r ffaith bod angen i ni gymryd camau dybryd er mwyn ymgysylltu'n well â chleifion a'u teuluoedd sy'n codi pryderon addasrwydd i ymarfer.

- 16 Mae'r Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd ac Adroddiad Panel Annibynnol Gosport yn codi cwestiynau pwysig i ni a phob rheoleiddiwr ynghylch y ffordd rydym yn casglu ac yn gwerthfawrogi barn cleifion a'r cyhoedd wrth fynd ati i reoleiddio. Rydym wedi ymrwymo i raglen eang o weithgareddau er mwyn datblygu hyn.

### **Adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2016-2017**

- 17 Bu oedi cyn i PSA gynnal adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2016-2017, wrth i'r Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd gael ei gwblhau. Cyhoeddodd PSA ei adolygiad ym mis Mehefin 2018, a ddangosodd ein bod yn cyrraedd 23 o'r 24 o Safonau Rheoleiddio Da. Er bod yr asesiad hwn yn dangos ein bod yn parhau i wneud cynnydd, nododd yr adroddiad fod angen i ni wella'r ffordd rydym yn cefnogi'r rheini sy'n dilyn ein proses addasrwydd i ymarfer, gan adlewyrchu canfyddiadau'r Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd. Cymerwn ganfyddiadau'r ddau adroddiad hyn, ac Adroddiad Panel Annibynnol Gosport, o ddifrif ac mae rhaglen waith gynhwysfawr yn cael ei datblygu er mwyn cyflawni'r newid sydd ei angen.

### **Ein perfformiad yn 2017-2018**

- 18 Mae *Strategaeth 2015-2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* yn ein herio i sicrhau bod ein dull rheoleiddio yn un arloesol a blaengar a all addasu i newidiadau ym maes gofal iechyd a'r galwadau ar nyrsys a bydwagedd.
- 19 Mae'n nodi pedair blaenoriaeth strategol i gyflawni ein hamcan cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd:
  - 19.1 Rheoleiddio effeithiol
  - 19.2 Defnyddio gwybodaeth
  - 19.3 Cydweithredu a chyfathrebu
  - 19.4 Sefydliad effeithiol
- 20 Mae *Cynllun corfforaethol 2017-2018* yn nodi ein blaenoriaethau ac ymrwymadau cyflawni penodol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r strategaeth.

## **Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol**

Mae'n rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau rheoliadol statudol craidd yn gyson dda er mwyn diogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder y cyhoedd. Byddwn yn parhau i wella ein swyddogaethau craidd, gan ganolbwyntio ar gyflymder, gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd ein penderfyniadau. At hynny, bydd angen i ni ymateb i ofynion newydd a newid deddfwriaethol.

### **Cofrestru ac ailddilysu**

- 21 Rydym yn cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwagedd sy'n gymwys i ymarfer yn y DU yn ôl y gyfraith. Ddiwedd mis Mawrth 2018, roedd 690,000 o nyrsys a bydwagedd ar ein cofrestr. Dim ond y sawl sy'n dangos eu bod yn cyrraedd ein safonau a all gael eu cynnwys ar ein cofrestr, a pharhau i fod wedi'u cofrestru.
- 22 Yn 2016, gwnaethom gyflwyno system ailddilysu sy'n sicrhau bod gan nyrsys a bydwagedd y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf. Dengys ein hail adroddiad blynyddol ailddilysu, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2018, ynghyd â'r adroddiad gwerthuso ar gyfer yr ail flwyddyn, fod mwy na 200,000 o nyrsys a bydwagedd wedi'u hailddilysu'n llwyddiannus yn ystod 2017-2018. Mae'r tueddiadau cadarnhaol a welwyd yn y flwyddyn gyntaf wedi parhau, gyda nyrsys a bydwagedd yn arbennig yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae ailddilysu yn eu galluogi i ddangos eu proffesiynoldeb a'r cyfleoedd mae'n eu cynnig i fyfyrion a datblygu.

### **Gweithgarwch cofrestru arall**

- 23 Gwnaethom barhau i ehangu ein gwasanaethau ar-lein i nyrsys a bydwagedd, gan ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i'r rheini sy'n cofrestru am y tro cyntaf. Unwaith y daw'r holl wybodaeth sydd ei hangen i law, gall nyrsys a bydwagedd sydd newydd gymhwyso yn y DU gofrestru gyda ni ymhen diwrnod. Mae newidiadau eraill yn golygu y gall nyrsys a bydwagedd ddefnyddio eu cyfrif ar-lein i ddiweddarau eu manylion personol neu roi gwybod i ni eu bod am adael y gofrestr. Mae'r mentrau hyn hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar ein hôl-troed amgylcheddol a chosteffeithiolrwydd cyffredinol, drwy arbed costau argraffu a phostio.
- 24 Gwnaethom hefyd gynnig mwy o hyblygrwydd i nyrsys a bydwagedd sydd wedi'u hyfforddi y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewrop i ddangos eu bod yn cyrraedd ein safonau. Ymhlith y rhain roedd:
  - 24.1 Mwy o amser i gwblhau'r Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE); elfen allweddol o'r prawf y mae'n rhaid i nyrsys a bydwagedd lwyddo ynddo er mwyn ymarfer yn y DU.
  - 24.2 Rhagor o ffyrdd o ddangos eu bod yn cyrraedd y safonau Saesneg sydd eu hangen i ymarfer.
- 25 Byddwn yn ystyried profion Saesneg ymhellach fel rhan o adolygiad ehangach o'n prosesau cofrestru ar gyfer y rheini a hyfforddir y tu allan i'r Ardal Economaidd

Ewrop. Bydd ein hadolygiad yn sicrhau ein bod yn parhau i ddiogelu'r cyhoedd ac ar yr un pryd yn:

- 25.1 Gwneud y broses yn haws ac yn gyflymach i ymgeiswyr a chyflogwyr wrth barhau i ddiogelu'r cyhoedd.
  - 25.2 Sicrhau bod ein gofynion ar gyfer ymgeiswyr o dramor yn cyfateb i'n safonau newydd o ran addysg yn y DU ar gyfer nyrsys a bydwagedd.
  - 25.3 Cynnig llwybr i'r rheini a hyfforddir dramor sydd am ddod yn gydymaith nyrsio.
- 26 Ynghyd â'r gwelliannau hyn, rydym wedi parhau i weld perfformiad cryf o ran cofrestrïadau. Gwnaethom gofrestru dros 25,000 o nyrsys a bydwagedd newydd yn ystod y flwyddyn. Cwblhawyd 97.9 y cant o geisiadau cofrestru yn y DU o fewn 10 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 95 y cant o fewn 10 diwrnod. Cwblhawyd 99.7 y cant o geisiadau cofrestru yn y DU o fewn 30 diwrnod. Cwblhawyd 98.5 y cant o geisiadau cofrestru o'r UE/o dramor o fewn 60 diwrnod, gan ragori ar ein targed o 90 y cant o fewn 60 diwrnod.
- 27 Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ateb dros 119,000 o ymholiadau e-bost, yn ogystal â thros 269,000 o alwadau i'n canolfan gyswllt, tua 1,000 o alwadau bob diwrnod gwaith.

## **Addysgu a hyfforddi nyrsys a bydwagedd y dyfodol**

- 28 Bydd ein safonau addysg newydd uchelgeisiol yn llywio dyfodol nyrsio i'r genhedlaeth nesaf. Cytunwyd ar y safonau newydd yn dilyn dwy flynedd o waith ymgysylltu ac ymgynghori helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid ledled y DU. Rydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth rannu eu barn â ni. Mae rolau nyrsio yn dod yn fwyfwy cymhleth ac amrywiol. Bydd y safonau newydd yn paratoi nyrsys i roi gofal medrus i bobl a all fod ag anghenion gofal cymhleth, gan weithio'n fwy hyblyg ar draws gwahanol leoliadau gofal. Rydym yn ddiolchgar i'r Fonesig Jill MacLeod Clark a wnaeth arwain y gwaith hwn.
- 29 Ynghyd â'r safonau, gwnaethom gytuno ar ddull mwy modern ac arloesol o ran y ffordd mae prifysgolion a'u partneriaid lleoliadau ymarfer yn hyfforddi nyrsys a bydwagedd yn y DU. Bydd y fframwaith addysg newydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i brifysgolion a'u partneriaid ymarfer weithio mewn ffyrdd newydd fel y gallant helpu nyrsys a bydwagedd y dyfodol i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt.
- 30 Fel rhan o'r newidiadau hyn byddwn yn dileu ein safonau rheoli meddyginiaethau ac yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol i lunio canllawiau cyson ar reoli meddyginiaethau i bob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Byddwn yn mabwysiadu fframwaith cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer rhagnodwyr fel ein safonau hyfedredd ar gyfer nyrsys a bydwagedd rhagnodi.

## Cymdeithion Nyrsio

- 31 Ym mis Ionawr 2017, gwnaethom gytuno i gais gan y Llywodraeth i reoleiddio cymdeithion nyrsio, sef rôl broffesiynol newydd yn Lloegr. Bydd cymdeithion nyrsio yn chwarae rhan bwysig yn y tîm nyrsio, gan gyfrannu at ddarparu gofal mewn amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhaglen waith helaeth, a ariennir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn mynd rhagddi er mwyn paratoi i reoleiddio'r rôl. Rydym ar y trywydd iawn i agor y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio ym mis Ionawr 2019.
- 32 Rydym wedi datblygu'r prif adnoddau a wnaiff lywio ein dull o reoleiddio cymdeithion nyrsio, gan gynnwys safonau hyfedredd, y Cod, a safonau rhaglen cyn cofrestru. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhain yn ystod gwanwyn 2018. Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ar y ffioedd cofrestru arfaethedig ar gyfer cymdeithion nyrsio a gymeradwywyd gan y Cyngor.
- 33 Dechreuodd 2,000 o fyfyrwyr raglenni cymdeithion nyrsio yn 2017 a'r nod yw cael 5,000 arall i ddechrau yn 2018. Health Education England (HEE) sy'n gyfrifol am y rhaglenni hyn ac rydym yn gweithio'n agos gydag ef er mwyn sicrhau y gallwn asesu p'un a yw'r myfyrwyr cyntaf yn barod i ymuno â'r gofrestr.

## Sicrhau ansawdd addysg

- 34 Ar 31 Mawrth 2018, roedd 81 o sefydliadau addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC yn cyflwyno dros 900 o raglenni. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymholiadau gan sefydliadau newydd sydd am fod yn sefydliad o'r fath, yn dilyn y newidiadau i gyllid myfyrwyr a wnaeth ddileu'r cap ar leoedd nyrsio a bydwreigiaeth yn Lloegr, a chan aros am rôl newydd y cydymaith nyrsio.
- 35 Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yng nghyfraddau cymeradwyo llwybrau amgen i addysg nyrsio cyn cofrestru, yn bennaf cyflwyno prentisiaethau graddau nyrsio a rhaglenni rhan-amser yn Lloegr, am fod sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan yr NMC yn parhau i ymateb i dirwedd iechyd a gofal newidiol, anghenion y gweithlu lleol a symud tuag at ehangu mynediad.
- 36 Gwnaethom barhau i fonitro ymweliadau ar sail risg yn ystod blwyddyn academiaidd 2016-17: ymwelwyd â 17 o sefydliadau addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC ac archwiliwyd 31 o raglenni. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, dysgu ymarfer oedd y maes a berai'r pryder mwyaf, gyda derbyniadau a chynnydd ar ei ôl. Hefyd, ym mlwyddyn academiaidd 2016-17 y gwelwyd y nifer fwyaf o fyfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a gyfwelwyd fel rhan o'r adolygiadau hyn hyd yma, gan danlinellu ein hymrwymiad i ehangu cyfranogiad yn y digwyddiadau hyn. Erbyn hyn cwblhawyd pob ymweliad monitro ar gyfer blwyddyn academiaidd 2017-18 a chyflwynir adroddiad ar y canlyniadau yn ystod hydref 2018, pan fydd cynlluniau gweithredu pob sefydliad addysg sydd wedi'i gymeradwyo wedi'i gwblhau.
- 37 Rydym wedi cydweithio â'n partneriaid addysg er mwyn symleiddio a gwella'r broses hunanadrodd flynyddol, fel bod llai o faich adrodd ar sefydliadau ac er mwyn gwella ansawdd y wybodaeth a geir. Fel rhan o hyn adeiladwyd ar ein trefniadau i annog prosesau adrodd clodwiw gan sefydliadau addysg sydd wedi'u cymeradwyo. Fel y nodwyd yn *Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth*

*Adroddiad blynyddol 2016-2017*, arweiniodd hyn at gynnydd o 50 y cant yn nifer yr adroddiadau fel eithriad a gafwyd. Pan fydd sefydliadau addysg sydd wedi'u cymeradwyo yn codi mater neu bryder gyda ni, gofynnwn am dystiolaeth o'r camau a gymerwyd, lle y bo'n briodol, er mwyn rheoli neu liniaru unrhyw risgiau i'n safonau a nodwyd. Rydym wedi ymrwmo i barhau i wella prosesau adrodd fel eithriad drwy rannu gwybodaeth fel mater o drefn a chydweithio ar draws yr NMC.

## **Bydwreigiaeth**

- 38 O fis Ebrill 2017, ar ôl diddymu'r Pwyllgor Bydwreigiaeth statudol, daeth y Cyngor yn uniongyrchol gyfrifol am reoleiddio bydwreigiaeth, yn unol â'n dull o reoleiddio nyrsio.
- 39 Mae'r Panel Bydwreigiaeth, a sefydlwyd yn 2015, wedi parhau i gyfarfod er mwyn darparu cyngor lefel uchel ar faterion allweddol, yn ogystal â bod yn fforwm i ddatblygu syniadau strategol ynghylch rheoleiddio bydwreigiaeth. Mae'r Panel yn cynnwys y Prif Swyddogion Nyrsio o'r pedair gwlad yn y DU, Coleg Brenhinol y Bydwagedd a ffigyrau blaenllaw eraill sydd â diddordeb mewn gwasanaethau bydwreigiaeth a mamolaeth, gan gynnwys arbenigwyr. Cafodd y Panel adroddiadau gan y pedair gwlad ynghylch y trefniadau goruchwylio clinigol newydd a roddwyd ar waith yn lle goruchwyliaeth statudol. Hefyd, cafodd y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu safonau bydwagedd y dyfodol yn rheolaidd.
- 40 Ymhlith y gweithgarwch bydwreigiaeth allweddol roedd:
- 40.1 Gwaith ar ein safonau drafft ar gyfer bydwagedd y dyfodol wedi'i arwain gan yr Athro Mary Renfrew, gan gynnwys gwaith ymgysylltu helaeth er mwyn llywio'r broses o ddatblygu'r safonau.
- 40.2 Cyflwyno rhaglen i wella dealltwriaeth a gwybodaeth aelodau'r Cyngor am faterion bydwreigiaeth a mamolaeth. Fel rhan o hyn cafwyd sesiynau seminar gyda'r Athro Mary Renfrew ac obstetregydd blaenllaw. Hefyd, ymwelodd aelodau'r Cyngor â Phrifysgol Napier Caeredin er mwyn dysgu am raglenni bydwreigiaeth y Brifysgol ac ymweld â phartneriaid lleoliadau, gan gynnwys Canolfan Geni Ysbyty Brenhinol Caeredin.
- 40.3 Ei gwneud hi'n haws i gael gafael ar gyngor ar fydwreigiaeth yn fewnol er mwyn cefnogi ein gwaith ym maes addysg a pholisi bydwreigiaeth.
- 40.4 Lansio deunydd bydwreigiaeth newydd ar ein gwefan, gan gynnwys gwybodaeth am y Panel Bydwreigiaeth a'n gwaith ar safonau bydwagedd y dyfodol.
- 40.5 Cynnal digwyddiad gwranddo ar fydwagedd yn Llundain ym mis Hydref 2017.

## **Addasrwydd i ymarfer**

- 41 Mae ein gwaith addasrwydd i ymarfer wedi'i nodi mewn adroddiad blynyddol ar wahân. Caiff datblygiadau allweddol 2017-2018 eu crynhoi isod.

- 42 Yn dilyn newidiadau deddfwriaethol, bu modd i ni wneud ein rheolau addaswydd i ymarfer yn fwy hyblyg, gan ein helpu i ddiogelu'r cyhoedd yn well drwy gymryd camau mwy cymesur a chanolbwyntio ar yr achosion mwyaf difrifol. Erbyn hyn mae gan ein Harchwilwyr Achos bwerau newydd i benderfynu achosion drwy ymgymeriadau, rhybuddion a chyngor. Gwnaethom ddechrau defnyddio'r pwerau newydd pan gafodd y ddeddfwriaeth ei chyflwyno ac maent eisoes wedi helpu i wella effeithlonrwydd ein proses addaswydd i ymarfer.
- 43 Os bydd diogelwch y cyhoedd mewn perygl uniongyrchol a difrifol, gallwn gyfyngu ar weithgarwch nyrs neu fydwrraig, neu ei hatal rhag ymarfer, nes i ni ymchwilio i'w hachos yn llawn drwy osod gorchymyn interim. Gwnaethom barhau i ragori ar ein targed o osod 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod i'r atgyfeiriad.
- 44 Rydym wedi canolbwyntio ar wella amseroldeb hynt achosion ar draws y broses addaswydd i ymarfer, drwy ein pwerau newydd, gwaith ymgysylltu cynnar a gwella ein system rheoli achosion. Gwnaethom gyflawni ein targed o ddatrys 80 y cant o achosion o fewn 15 mis am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2018. Mae cryn dipyn i'w wneud cyn i ni berfformio'n gyson yn erbyn y mesur hwn.

### **Pennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addaswydd i ymarfer**

- 45 Rydym yn gwybod bod mwy y gallwn ei wneud i wella'r ffordd rydym yn ymdrin â phryderon. Ym mis Ebrill 2018, gwnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar ein cynlluniau i bennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addaswydd i ymarfer, sef *Sicrhau diogelwch cleifion, galluogi proffesiynoldeb*. Mae ein strategaeth yn adeiladu ar welliannau rydym eisoes wedi'u gwneud i'r ffordd rydym yn ymchwilio i bryderon a bydd yn ein helpu i fynd i'r afael ag argymhellion Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd PSA. Mae'n rhoi diogelwch y cyhoedd wrth wraidd y broses gyfan. Rydym hefyd am weld ein newidiadau yn galluogi proffesiynoldeb drwy annog diwylliant dysgu agored a chynorthwyo nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwragedd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch eu hymarfer.
- 46 Rydym wedi ystyried safbwyntiau ac adborth a gwnaethom dreialu agweddau ar ein dull gweithredu strategol newydd ym mis Medi 2018.

### **Blaenoriaeth strategol 2: Defnyddio gwybodaeth**

Drwy ddefnyddio tystiolaeth o ddata a gwaith ymchwil yn well byddwn yn meithrin dealltwriaeth o'r hyn a wnawn, gan ein helpu i fod yn fwy effeithiol, tryloyw a chymesur. Fel cam cyntaf, mae angen i ni sicrhau bod ein systemau yn helpu i wella'r broses o gasglu a defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill.

- 47 Rydym wedi parhau i feithrin cyberthnasau rheoleiddiol effeithiol â chyflogwyr drwy ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed y llynedd.
- 48 Eleni gwnaethom sefydlu'r Uned Gwybodaeth Reoleiddio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr. Gwnaethom recriwtio tîm bach o ddadansoddwyr gwybodaeth a sefydlu grŵp cydlynu gwybodaeth traws-gyfarwyddiaeth er mwyn ystyried ymatebion i'r materion a nodwyd gan yr Uned.

- 49 Mae'r wybodaeth a roddir gan yr Uned yn helpu ein Cynghorwyr yn y Gwasanaeth i flaenoriaethu cyswllt â chyflogwyr drwy ddeall p'un a oes unrhyw bryderon addasrwydd i ymarfer, cofrestru neu addysg a ph'un a oes angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio. Mae'r dull newydd hwn o weithredu a sefydlu'r Uned a'r Gwasanaeth wedi:
- 49.1 ein galluogi i fod yn fwy ymatebol i bryderon posibl ynghylch diogelwch cleifion;
  - 49.2 gwella ein hymgysylltu â chyflogwyr a rheoleiddwyr eraill;
  - 49.3 gwella ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar ddarparwyr gofal iechyd.
- 50 Rydym wedi dechrau cyhoeddi data ar y gofrestr ddwywaith y flwyddyn er mwyn rhannu'r wybodaeth hon â chyflogwyr, llunwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol eraill, ynghyd â'r cyhoedd. Byddwn yn parhau i adolygu'r data a gyhoeddwn, ynghyd â'u gwella wrth symud ymlaen.
- 51 Drwy barhau i ganolbwyntio ar wybodaeth yn 2018-2019, ein gobaith yw y gallwn, dros amser, feithrin dealltwriaeth newydd o'r hyn a wnaiff ein helpu i fod yn fwy effeithiol, tryloyw a chymesur. Anelwn at:
- 51.1 canolbwyntio ar wella ein system adrodd ar ddata cyhoeddus a fydd yn hysbysu ein rhanddeiliaid am ein gwaith ac yn helpu i leihau'r amser mae'n ei gymryd i ymateb i ymholiadau ad hoc gan y cyfryngau ac eraill;
  - 51.2 ehangu ac atgyfnerthu ymhellach gydberthnasau effeithiol â chyflogwyr er mwyn meithrin eu dealltwriaeth o gyfrifoldebau rheoleiddiol yr NMC;
  - 51.3 parhau i weithio gyda rheoleiddwyr systemau, rheoleiddwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyrrff goruchwyllo perthnasol eraill er mwyn rhannu gwybodaeth fel bod modd i'r lleoliadau sy'n peri'r risg fwyaf o ran gofal nyrsio a bydwreigiaeth gael eu nodi, ac y gellir cymryd y camau priodol.

### **Blaenoriaeth strategol 3: Cydweithredu a chyfathrebu**

Byddwn yn parhau i wella ansawdd ein cydberthnasau er mwyn helpu i gyflawni ein diben cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd. Er mwyn helpu i wneud hyn byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyffredinol. Bydd ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr yn flaenoriaeth. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni nodau cyffredin.

- 52 Rydym wedi cynnal gwaith ymgysylltu ac ymgynghori helaeth ar ein gwaith ledled y pedair gwlad drwy gydol y flwyddyn.
- 52.1 Fel rhan o'n hymgyngoriad cyhoeddus, cafwyd adborth gan bron 5,000 o unigolion a bron 300 o sefydliadau ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar nyrs y dyfodol, yn ogystal â'n cynigion ar addysg, rhagnodi a rheoli meddyginiaethau. Cynhaliwyd digwyddiadau ledled y pedair gwlad,



gyda mwy na 300 o bobl yn dod iddynt. Hefyd, cafwyd gweminarau a sgysiau Twitter gan ein galluogi i gyrraedd ymhellach.

- 52.2 Cynhaliwyd gweithdai ledled y DU er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu safonau bydwreigiaeth cyn cofrestru newydd. Mae'r digwyddiadau hyn wedi ein galluogi i glywed barn menywod a'u teuluoedd, bydwagedd, addysgwyr a myfyrwyr. Ymhlith y gwaith ymgysylltu cysylltiedig eraill bu trafodaethau â grwpiau eirioli a grwpiau â diddordeb a chyrff proffesiynol.
- 52.3 Gwnaethom hefyd wneud cryn dipyn o waith ymgysylltu ar ein dull o reoleiddio rôl newydd y cydymaith nyrsio, gan gynnwys drwy ein Grŵp Rhanddeiliaid Allanol, cynnal digwyddiadau, siarad mewn cynadleddau ac ymweld â safleoedd prawf hyfforddeion. Gall rhanddeiliaid gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar gymdeithion nyrsio drwy ran benodol o'n gwefan, deunyddiau print a'r cyfryngau cymdeithasol.
- 52.4 Gwnaeth ein Prif Weithredwr ac uwch aelodau o staff siarad mewn ystod eang o gynadleddau a digwyddiadau ledled y DU drwy gydol y flwyddyn er mwyn meithrin dealltwriaeth o'n gwaith.
- 53 Yn 2017 gwnaethom gefnogi gwaith y Prif Swyddogion Nyrsio o'r pedair gwlad yn y DU wrth nodi'r hyn mae proffesiynoldeb yn ei olygu i nyrsys a bydwagedd. Wedi'i lansio ym mis Mai 2017, mae *Galluogi proffesiynoldeb ym maes nyrsio a bydwreigiaeth* yn nodi sut beth yw proffesiynoldeb bob dydd i nyrsys a bydwagedd. I gyflogwyr, mae'n nodi egwyddorion allweddol er mwyn eu helpu i ddarparu amgylcheddau lleoliadau ymarfer sy'n cefnogi ac yn annog proffesiynoldeb ymhlith nyrsys a bydwagedd. Gwnaethom ysgrifennu at bob nyrs a bydwraig ar y cyd â'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio er mwyn rhannu gwybodaeth am y canllaw a darparwyd adnoddau ychwanegol ar ein gwefan.
- 54 Gwnaethom gyflwyno Fforwm Cynghorol y DU er mwyn ein helpu i sicrhau bod ein gweithgareddau a'n polisiâu yn berthnasol i ddatblygiadau a gwahanol ddulliau o weithredu ym mhedair gwlad y DU, yn ogystal â'u hystyried. Mae'r Fforwm yn gyfle arall i ymgysylltu â'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio, arweinwyr polisi a phroffesiynol allweddol, rhanddeiliaid a phartneriaid. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Fforwm yn yr Alban ym mis Tachwedd 2017, wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr, gyda'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor yn bresennol.
- 55 Gwnaeth y digwyddiadau trasig yn 2017, gan gynnwys ymosodiadau Pont Westminster, Arena Manceinion a Phont Llundain, a thân Grenfell, danlinellu proffesiynoldeb, gwydnwch a thrugaredd aelodau ein cofrestr. Cafodd aelodau'r Cyngor y frainc a'r anrhydedd o gyfarfod â Chyfarwyddwr Nyrsio a staff Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Prifysgol Manceinion, yr oedd llawer ohonynt wedi gofalu am y sawl a anafwyd yn Arena Manceinion, ynghyd â'u teuluoedd. Yn yr un modd, cafodd aelodau'r Cyngor eu hysbrydoli wrth gyfarfod â Chyfarwyddwr Nyrsio a staff Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Guy's a St Thomas', yr oedd llawer ohonynt wedi gofalu am y sawl a anafwyd yn sgil yr ymosodiadau ar Bont Westminster a Phont Llundain, ynghyd â'u teuluoedd. Gwnaeth y cyfarfod argraff fawr ar yr aelodau. Achubwyd ar y cyfle i wneud ein canllawiau i nyrsys a bydwagedd a allai fod angen ymateb i ddigwyddiadau neu achosion brys oddi ar eu safle gwaith arferol lle y gall fod angen i bobl dderbyn gofal yn gliriach.

Cynhaliwyd trafodaethau â nifer o sefydliadau a chyhoeddwyd canllawiau ym mis Awst 2017.

- 56 Roedd aelodau'r Cyngor yn falch o gael y cyfle i gyfarfod â myfyrwyr ac addysgwyr ym Mhrifysgol Napier Caeredin a Phrifysgol De Cymru. Hefyd, ymwelwyd â'r uned iechyd meddwl a dementia ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r uned nyrsio ardal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae clywed yn uniongyrchol gan nyrsys a bydwagedd ar bob lefel, ynghyd â myfyrwyr, addysgwyr, cyflogwyr a darparwyr yn glŷn â'u profiadau a'r heriau a wynebir ganddynt bob amser yn ysbrydoliaeth ac yn tanlinellu proffesiynoldeb y sawl rydym yn eu rheoleiddio.

#### **Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol**

Byddwn yn datblygu ein systemau, ein hadnoddau a'n diwylliant ymhellach er mwyn ein helpu i ddatblygu'n rheoleiddiwr deallus, cydweithredol a blaengar.

- 57 Rydym wedi ymrwmo i wella a newid. Cytunwyd ar gynlluniau cychwynnol ar gyfer rhaglen trawsnewid sylweddol mewn egwyddor, yn amodol ar eu hadolygu. Ar ddechrau 2017-2018, daeth yn glir y byddai angen lleihau graddau'r gwaith hwn. Penderfynwyd ailflaenoriaethu gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar ddau faes gwella allweddol: cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer a moderneiddio ein seilwaith TG.
- 58 Atgyfnerthwyd ein strwythur gweithredol drwy greu dwy gyfarwyddiaeth newydd: cyfarwyddiaeth Materion Allanol a chyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Ym mis Hydref 2017 cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Pobl newydd er mwyn mynd i'r afael â phob agwedd ar brofiad y cyflogai.
- 59 Mae'r Strategaeth Pobl yn ceisio datblygu ein dull gweithredu yn y meysydd canlynol:
- 59.1 creu newid diwylliannol cadarnhaol
  - 59.2 denu, recriwtio, cadw a datblygu staff talentog sydd wedi ymrwmo i weledigaeth a chenhadaeth yr NMC
  - 59.3 datblygu uwch reolwyr ac arweinwyr o ansawdd uchel
  - 59.4 datblygu staff gan gynnwys llwybrau gyrfa
  - 59.5 ymgysylltu â chyflogeion
  - 59.6 datblygu gwasanaethau adnoddau dynol ardderchog.
- 60 Lanswyd ein gwerthoedd sefydliadol newydd (Pobl, Tegwch, Tryloywder) mewn Digwyddiad Arweinyddiaeth ym mis Mehefin 2017 a rhannwyd gwybodaeth am eu pwysigrwydd â'r sefydliad cyfan. Byddwn yn parhau i hyrwyddo ein gwerthoedd a'r mathau o ymddygiad rydym yn eu disgwyl gan ein staff fel eu bod yn treiddio drwy bob agwedd ar ein gwaith ar bob lefel, gan gynnwys y ffordd rydym yn trin y bobl sy'n dod i gysylltiad â ni. Byddwn hefyd yn defnyddio ein gwerthoedd i recriwtio, cadw a datblygu staff.

- 61 Gwnaethom hefyd lansio ein Rhaglen Datblygu Arweinwyr newydd yn y Digwyddiad Arweinyddiaeth ym mis Mehefin 2017. Rydym wedi parhau i weithio gyda'n rheolwyr er mwyn gwella hunanymwybyddiaeth drwy roi adborth 360 a'r 'Rhestr Cryfderau', sef adnodd sy'n meithrin ymwybyddiaeth o eraill. Bydd y Rhaglen Datblygu Arweinwyr yn parhau drwy gydol 2018-2019. Canolbwyntia ar ddatblygu arferion rheoli ym maes rheoli perfformiad. Ategwyd y ffocws ar reoli perfformiad gan lansiad ein proses arfarnu newydd ym mis Ebrill 2018. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth o arfarniadau i ddadansoddi bylchau mewn talent ac adeiladu ar ein gofynion hyfforddiant a datblygu proffesiynol parhaus at y dyfodol.
- 62 Roedd trosiant staff yn 21.9 y cant ar gyfer 2017-2018, 2.7 y cant yn llai na 2016-2017 a'r trosiant isaf mewn pum mlynedd i'r sefydliad. Rydym yn parhau i weithio ar leihau trosiant ond rhagwelwn y gallai'r arferion rheoli perfformiad newydd a gyflwynir gael effaith arno a'i gynyddu efallai yn 2018-2019.
- 63 Mae ein sgôr ymgysylltu â chyflogeion yn seiliedig ar bum dangosydd allweddol o'n harolwg staff blynyddol. Yn 2017 roedd ein sgôr ymgysylltu â chyflogeion yn 64 y cant (2016: 67 y cant). Cyflawnwyd cyfradd ymateb o 79 y cant (2016: 75 y cant). Rydym yn parhau i ddatblygu a chyfleu ein cynllun gweithredu ymgysylltu â chyflogeion, ar sail yr adborth o arolwg staff y llynedd a'r gweithdai. Diben y cynllun gweithredu yw dechrau'r sgwrs â'n cyflogeion ynghylch eu profiad o weithio i'r NMC a sut y gellid gwella hyn.

## **Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- 64 Rydym am fod yn rheoleiddiwr ac yn gyflogwr teg drwy sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd popeth a wnawn. Fel y nodir yn ein Strategaeth ar gyfer 2015-2020, ein bwriad yw ymgorffori'r tair elfen hyn drwy gydol ein gweithgareddau craidd. Rydym ym mlwyddyn dau ein Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: system llywodraethu a monitro i ymgorffori gweithgareddau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhrosesau busnes a rheoli perfformiad y sefydliad. Caiff cynnydd ei fonitro yn erbyn ein cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein hadroddiad blynyddol cydraddoldeb ac amrywiaeth yn amlinellu ein cynnydd yn erbyn ein nodau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant strategol ac yn cyflwyno data ar ein pobl, nyrsys a bydwagedd yn ôl nodwedd warchoddedig. Amlinellir ein cynnydd yn ystod 2017-2018 isod.
- 64.1 Gwnaethom gynyddu ymwybyddiaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; drwy ddatblygu cynllun cyfathrebu mewnol ar eu cyfer a oedd yn cynnwys dathlu dyddiadau allweddol fel Mis Hanes Pobl Dduon a Mis Hanes LGBT.
- 64.2 Gwnaethom barhau i werthuso a monitro ein gweithgareddau er mwyn deall yr effaith ar wahanol grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig, er enghraifft drwy ein hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yng nghyd-destun rheoleiddio rôl newydd y cydymaith nyrsio, a datblygu'r strategaeth addasrwydd i ymarfer.
- 64.3 Gwnaethom barhau i gyflwyno hyfforddiant tuedd anymwybodol i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn ein sefydliad, er enghraifft panelwyr ac archwilwyr achos addasrwydd i ymarfer.

- 64.4 Gwnaethom barhau i wella swm ac ansawdd y data ar amrywiaeth a gadwn ar gyfer nyrsys a bydwagedd.
  - 64.5 Gwnaethom lansio dau rwydwaith staff newydd; LGBT+ a Diwylliannol er mwyn helpu staff a'r sefydliad i gyflawni nodau strategol cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
  - 64.6 Ymgorfforwyd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein cyfeiriad strategol arfaethedig newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Un o'r canlyniadau rheoleiddiol allweddol yw cyflawni 'diwylliant proffesiynol sy'n rhoi gwerth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac sy'n blaenoriaethu bod yn agored a dysgu er mwyn diogelu'r cyhoedd'.
- 65 Rydym wedi ymrwymo i wneud rhagor o welliannau yn 2018-2019 gan gynnwys gwella ein sail dystiolaeth a meithrin ein dealltwriaeth o anghenion grwpiau amrywiol.

### **Y bwllch cyflog rhwng y rhywiau**

- 66 O 2017, rhaid i unrhyw sefydliad sydd â 250 neu fwy o gyflogeion gyhoeddi adroddiad ar ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau. Cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y bwllch cyflog rhwng y rhywiau yn 2017. Ein bwllch cyflog canolrifol ar gyfer 2017 oedd 3.7 y cant a'r bwllch cyflog cymedr oedd 1.9 y cant. Mae hyn yn sylweddol is na'r canlyniadau cenedlaethol: canolrifol - 11.8 y cant a chymedr - 14.3 y cant.
- 67 Er ein bod yn fodlon ar hyn nid ydym am laesu dwylo. Mae ein Strategaeth Pobl yn nodi ein huchelgais i fod yn gyflogwr y mae pobl yn ei ddewis. Un ffordd o gyflawni hyn fydd cymryd yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gwobrwyo y tu hwnt i gydymffurfiaeth, er mwyn ymgorffori'r amcanion hyn yn ein diwylliant a'n ffyrdd arferol o weithio.

### **Rhyddid gwybodaeth a diogelu data**

- 68 Anelwn at fod yn dryloyw ynghylch ein gwaith ond gwyddom fod angen i ni wneud yn well. Derbyniwn argymhelliad Gwersi a Ddysgwyd PSA yn llawn y dylem anelu at gyhoeddi cymaint ag y gallwn yn gyfreithlon, er mwyn gwella hyder y cyhoedd ynom. Rydym yn adolygu ein dull o ymateb i geisiadau am wybodaeth er mwyn sicrhau ein bod mor agored a gonest â phosibl wrth ryddhau gwybodaeth heb amharu ar hawliau pobl.
- 69 Yn 2017-2018 cafwyd 477 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (2016-2017: 545). Gwnaethom ymateb i 454 o'r rhain (2016-2017: 523). O'r gweddill, ymatebwyd i dri yn y flwyddyn fusnes gyfredol a thynnwyd y gweddill yn ôl. O'r 454 o ymatebion, anfonwyd 430 (95 y cant) o fewn y terfyn amser statudol.
- 70 Cafwyd 324 o geisiadau gwrthrych y data a datgeliadau trydydd parti yn 2017-2018 (2016-2017: 311). Gwnaethom ymateb i 271 o'r rhain a thynnwyd y gweddill yn ôl. Ar gyfartaledd, ymatebwyd i'r ceisiadau hyn o fewn 13 diwrnod.
- 71 Lle na fydd aelod o'r cyhoedd yn fodlon ar yr ymateb i'w gais Rhyddid Gwybodaeth, gall ofyn am adolygiad mewnol o'r ymateb i'w gais. Bydd swyddog

nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol yn ymdrin â cheisiadau o'r fath. Cafwyd 14 o adolygiadau mewnol yn 2017-2018, gyda 12 yn cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol i beidio â datgelu'r wybodaeth y gwnaed cais amdani. Mewn dau achos, arweiniodd yr adolygiad at ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

- 72 Gwnaed pedair cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (2016-2017: saith) yn ystod y cyfnod hwn. Mewn tri achos roedd y Comisiynydd Gwybodaeth yn cytuno â'n penderfyniad. Mewn un achos, gofynnodd y Comisiynydd Gwybodaeth i ni ailystyried; gwnaethom hynny a datgelu'r wybodaeth y gwnaed cais amdani wedyn.

### **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**

- 73 Ynghyd â phob sefydliad arall, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi paratoi i gyflwyno GDPR ym mis Mai 2018. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'n holl asedau data a gwnaed amrywiaeth o newidiadau, gan gynnwys diweddarau ein holl bolisiau ynghylch data a diogelwch a gwella'r ffordd rydym yn cofnodi prosesu data neu rannu data â thrydydd partion. Daeth adroddiad Archwilio Mewnol ynghylch p'un a oeddem yn barod ar gyfer GDPR cyn y dyddiad gweithredu i'r casgliad ein bod wedi gwneud cynnydd da tuag at fodloni gofynion GDPR a'n bod mewn sefyllfa dda o ran y gwaith a'r cynlluniau oedd ar waith ar yr adeg honno. Parhawn i fynd i'r afael â meysydd y mae angen rhoi sylw penodol iddynt, fel cadw gwybodaeth hanesyddol.

### **Cwynion corfforaethol a digwyddiadau difrifol**

- 74 Rydym am fod yn sefydliad sy'n dysgu o'i gamgymeriadau. Anelwn at ymdrin â chwynion a godir gyda ni ynghylch y gwasanaeth rydym wedi'i ddarparu mewn ffordd deg ac amserol, gan drin y rhai sy'n gwneud cwynion â pharch a gwrando ar eu pryderon. Derbyniwn nad ydym wedi gwneud hyn bob tro a gwyddom fod angen i ni wneud yn well. Rydym wrthi'n diweddarau ein polisiau corfforaethol er mwyn sicrhau ein bod yn ymdrin â chwynion mewn ffordd agored, mor dryloyw â phosibl, ac y gallwn ddangos ein bod yn dysgu o gamgymeriadau.
- 75 Yn 2017-2018 cawsom 938 o gwynion ffurfiol gan bobl o'r tu allan i'r sefydliad. Gwnaethom ymateb i 80 y cant o'r rhain o fewn 20 diwrnod gwaith. Yn achos 107 o'r cwynion hyn gofynnodd yr achwynydd am adolygiad o'r ffordd y gwnaethom ymdrin â'i gŵyn a gwnaethom ymateb i'r rhain mewn 15.5 diwrnod gwaith ar gyfartaledd.
- 76 Hefyd, cofnododd ein staff 68 o ddigwyddiadau difrifol. Mae'r rhain yn gyfuniad o ddigwyddiadau ac achosion y bu bron iddynt ddigwydd. Rhoddir rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau difrifol yn y datganiad llywodraethu blynyddol (paragraffau 192 a 193).
- 77 Rydym yn adolygu ac yn dadansoddi cwynion a digwyddiadau difrifol yn rheolaidd, er mwyn nodi unrhyw dueddiadau, themâu a gwersi i'w dysgu a gaiff eu hymgorffori wedyn yng nghynlluniau cyfarwyddiaethau. Roedd y themâu eleni yn cynnwys diogelu gwybodaeth a diogelu data, gwasanaeth cwsmeriaid, cyfathrebu ac amseroldeb/oedi. Yn arbennig, mae cwynion a digwyddiadau difrifol o ran

amseroldeb, oedi a gwasanaeth cwsmeriaid wedi arwain at newidiadau i brosesau o fewn y cyfarwyddiaethau Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru ac Ailddilysu.

## **Chwythu'r chwiban i'r NMC – cyflawni ein dyletswydd statudol fel person rhagnodedig**

- 78 Mae gennym bolisi a phroses ar gyfer chwythu'r chwiban a ddilynir gan ein holl staff neu eraill sy'n gweithio i ni. Rhoddir rhagor o wybodaeth am hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol (paragraffau 189 i 191).
- 79 Ers mis Ebrill 2017, mae'r NMC hefyd wedi bod yn berson rhagnodedig yn ôl y gyfraith. Golyga hyn y gall pryderon gael eu codi gyda ni gan nyrsys, bydwragedd, myfyrwyr neu aelodau eraill o staff sy'n nodi camwedd yn eu gweithleoedd neu leoliadau ymarfer. Mae ein polisi yn nodi meini prawf a ddefnyddiwn i benderfynu a ddylai gwybodaeth a ddaw i law gael ei thrin fel chwythu'r chwiban.
- 80 Yn 2017-2018 gwnaethom asesu 371 o ddarnau o wybodaeth o ran chwythu'r chwiban; roedd 60 o'r rhain (16 y cant) yn bodloni'r meini prawf ar gyfer chwythu'r chwiban a nodir yn ein polisi.
- 81 O'r materion a godwyd gyda ni sy'n bodloni ein meini prawf, roedd a wnelo'r pryderon chwythu'r chwiban mwyaf cyffredin a nodwyd gennym â'r canlynol:
- 81.1 diogelwch a gofal cleifion
  - 81.2 rheoli
  - 81.3 ymddygiad a bwlio, bygythion neu aflonyddu cydweithwyr
  - 81.4 rhagnodi a rheoli meddyginiaethau.
- 82 Nodir y rhesymau mwyaf cyffredin ynghylch pam nad oedd materion a godwyd gyda ni yn bodloni ein meini prawf isod.
- 82.1 Nid oedd y pryderon yn perthyn i'n cylch gwaith rheoleiddio – lle'r oedd yn briodol gwnaethom atgyfeirio'r rhain at gorff arall.
  - 82.2 Nid oedd y pryderon yn bodloni prawf budd y cyhoedd.
  - 82.3 Nid oedd digon o wybodaeth i ni weithredu ac ni wnaeth y sawl a gododd y pryderon ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth.
- 83 Gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar y cyd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill ym mis Medi 2018 ar y ffordd yr ymdriniwyd â datgeliadau chwythu'r chwiban a pha gamau a gymerwyd.

## **Cynllun Strategol 2018-2019**

- 84 Mae *Strategaeth 2015-2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* yn pennu pedair blaenoriaeth strategol. Maent yn helpu i lywio ein gwaith yn unol â'n nod o fod yn rheoleiddiwr arloesol a blaengar a all addasu'n hawdd i newidiadau ym maes gofal iechyd.

- 85 Mae ein cynllun corfforaethol yn canolbwyntio ar y bedwaredd flwyddyn o'n strategaeth pum mlynedd. Amlinella ein blaenoriaethau a'n hymrwymiaadau ar gyfer 2018-2019.

### **Trosolwg o'n blaenoriaethau ar gyfer 2018-2019**

Mae ein blaenoriaethau ar gyfer 2018-2019 yn canolbwyntio ar ddatblygu rhaglenni gwaith mawr, gan barhau i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd ar yr un pryd. Ein blaenoriaethau yw:

- **Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd:** Datblygu rhaglen waith sy'n mynd i'r afael â'r holl wersi a nodwyd yn yr adolygiad.  
  
Canolbwyntio ar ddwy wers allweddol: gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chleifion, teuluoedd a'r cyhoedd; a bod yn agored ac yn dryloyw yn ein gwaith.
- **Addysg:** Moderneiddio safonau addysg a hyfforddiant i nyrsys a bydwagedd.
- **Cymdeithion nyrsio:** Rheoleiddio cymdeithion nyrsio o fis Ionawr 2019.
- **Addasrwydd i ymarfer:** Pennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer er mwyn delio ag achosion yn fwy effeithiol ac effeithlon.
- **Cofrestru nyrsys a bydwagedd o dramor:** Gwella effeithlonrwydd ein prosesau a diweddarau ein ffyrdd o ymuno â'r gofrestr er mwyn ystyried ein safonau addysg newydd a'r broses o gyflwyno cymdeithion nyrsio.
- **Sefydliad effeithiol:** Parhau i wella'r ffordd rydym yn gweithio, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi yn ein pobl a thechnoleg.
- **TGCh:** Rhoi cynllun ar waith ar gyfer moderneiddio ein systemau a'n seilwaith TG.
- **Perfformiad rheoleiddio craidd:** Adeiladu ar ein perfformiad a'n hansawdd cryf presennol a'u cynnal.

Ymgysylltu â'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn deall safbwyntiau'r cleifion a'r cyhoedd a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth gyflawni ein gwaith.

# Ein hymrwymiaadau cyflawni 2018-2019

## Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol

### Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd

Erbyn 31 Mawrth 2019 byddwn wedi:

- sefydlu'r Gwasanaeth Cymorth Cyhoeddus yn llawn, a fydd yn arwain ein gwaith i sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio ar unigolion.
- comisiynu ac adrodd ar ymchwil i ddeall yn well beth ddylai ein rôl fod a pham, ym marn pobl.
- adolygu ein gohebiaeth a'n llythyray er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn empathetig ac yn cynnig y lefel gywir o gymorth.
- cyflwyno ffordd newydd o ymdrin ag ymholiadau, ceisiadau am wybodaeth a chwynion corfforaethol gan ragdybio bod tryloywder wrth wraidd hynny.
- atgyfnerthu pwysigrwydd ein gwerthoedd a'n ffyrdd o ymddwyn ar draws y sefydliad.

### Addysg

Erbyn 31 Mawrth 2019 byddwn wedi:

- **Nyrsio:** rhoi'r safonau medrusrwydd newydd ar waith ar gyfer nyrsys y dyfodol.
- **Bydwreigiaeth:** llunio'r safonau newydd ar gyfer bydwreidd y dyfodol yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
- **Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth:** rhoi ein dull newydd o sicrhau ansawdd sefydliadau addysg ar waith.

### Cymdeithion Nyrsio

Erbyn 31 Mawrth 2019 byddwn wedi:

- agor y gofrestr ar gyfer y cymdeithion nyrsio cyntaf.

### Addasrwydd i ymarfer

Erbyn 31 Mawrth 2019 byddwn wedi:

- pennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer, gan ystyried barn y cyhoedd, cleifion a rhanddeiliaid eraill.
- treialu newidiadau er mwyn:
  - gwella diogelwch y cyhoedd drwy ddatrys achosion cyn gynted â phosibl



- gwella profiad pobl sy'n ymwneud ag achosion
- gwella effeithlonrwydd a lleihau nifer y gwrandawiadau llawn rydym yn eu cynnal.

### **Cofrestru nyrsys a bydwagedd o dramor**

Erbyn 31 Mawrth 2019 byddwn wedi:

- adolygu'r dull o gofrestru nyrsys a bydwagedd o'r tu allan i'r DU ac wedi dechrau cyflwyno dull newydd o wneud hynny.

### **Cynnal perfformiad rheoleiddio craidd**

Drwy gydol 2018-2019 byddwn yn:

- parhau i berfformio'n gadarn yn erbyn ein targedau allweddol ar gyfer cofrestru ac addasrwydd i Yymarfer.
- parhau i fonitro ein gwasanaeth cwsmeriaid a chyflwyno newidiadau o ganlyniad i adborth cwsmeriaid.

## **Blaenoriaethau strategol 2-4: Defnyddio gwybodaeth, cydweithredu a chyfathrebu, sefydliad effeithiol**

### **Sefydliad effeithiol**

Erbyn 31 Mawrth 2019 byddwn wedi:

- buddsoddi yn y gwaith o newid hen systemau TG a chynnig datrysiadau TGCh er mwyn gwella ein defnydd o wybodaeth, gwella ein heffeithlonrwydd a chefnogi ein staff a'r bobl rydym yn eu rheoleiddio.
- datblygu ein strategaeth llety er mwyn gwneud defnydd gwell o'n hadeiladau a sicrhau arbedion cost hirdymor.
- atgyfnerthu ein capasiti a'n galluogrwydd sefydliadol drwy wella'r meysydd canlynol:
  - recriwtio
  - sefydlu
  - datblygu rheolwyr
  - ymgysylltu â chyflogeion.
- parhau i gyflawni ein hymrwymiaidau i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel y'u nodir yn ein fframwaith strategol.

## Adolygiad ariannol

- 86 Cyfanswm incwm y flwyddyn oedd £88.0 miliwn (2016-2017: £86.2 miliwn) sy'n cynnwys incwm ffioedd o £84.3 miliwn (2016-2017: £85.0 miliwn), incwm arall o £3.4 miliwn (2016-2017: £0.6 miliwn), y daw £2.3 miliwn ohono o'r Adran Iechyd a Gwaith Cymdeithasol ar gyfer gwaith ar gymdeithion nyrsio, ac incwm buddsoddi o £0.3 miliwn (2016-2017: £0.6 miliwn).
- 87 Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd cyfanswm o £87.9 miliwn (2016-2017: £86.6 miliwn) sy'n cynnwys £2.3 miliwn ar baratoi i reoleiddio cymdeithion nyrsio a gaiff ei ariannu'n llawn gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Caiff cyfanswm y gwariant ei ddadansoddi yn y datganiadau ariannol o dudalen 57.
- 88 Ar y cyfan, cafwyd £12,000 o symudiad net mewn cronfeydd (2016-2017: symudiad net mewn cronfeydd o £62,000).
- 89 Yn ystod 2017-2018, gwnaethom fuddsoddi mewn nifer o raglenni pwysig. Y pwysicaf oedd £3.7 miliwn ar gyfer ein Rhaglen Addysg (£3.4 miliwn yn 2016-2017), a oedd yn ymrwymiad allweddol yng nghynllun corfforaethol 2017-2018.
- 90 Mae Addasrwydd i Ymarfer yn dal i fod yn flaenoriaeth ac yn 2017-2018 roedd gwariant yn £66.2 miliwn (2016-2017: £66.5 miliwn), sy'n cynrychioli 75 y cant o gyfanswm y gwariant. Gwnaethom gyflwyno newidiadau deddfwriaethol ym mis Awst 2017 sy'n ein galluogi i reoli achosion yn fwy effeithlon. Disgwylir gweld effaith lawn y newidiadau hyn yn 2018-2019 a dylai arwain at lai o wariant a llai o wrandawiadau. Fel ein gweithgaredd gweithredol mwyaf, Addasrwydd i Ymarfer sy'n cyfrif am y gwariant cymorth priodaladwy mwyaf, sy'n cynnwys costau yr eir iddynt ar y rhaglen trawsnewid sefydliadol.
- 91 Yn 2017-2018 gwariwyd £11.2 miliwn ar gynnal y gofrestr o gymharu ag £11.4 miliwn yn 2016-2017. Cyflawnwyd hyn drwy wella arbedion effeithlonrwydd drwy symud mwy o brosesau ar-lein, gan barhau i ailddilysu dros 200,000 o nyrsys a bydwragedd ar yr un pryd.
- 92 Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom benderfynu lleihau graddau'r trawsnewid. Byddwn yn parhau i geisio bod yn rheoleiddiwr mwy dynamig drwy fynd ar drywydd prosiectau strategol a wnaiff gyflawni gwerth am arian i'r sefydliad. Mae allbynnau'r rhaglen drawsnewid wedi gosod sylfaen gadarn i gyflawni mwy o fuddiannau yn y dyfodol. Yn 2017-2018 gwariwyd £2.2 miliwn ar drawsnewid; mae hyn yn is na'r gyllideb o £2.5 miliwn a gafodd ei chymeradwyo'n wreiddiol.
- 93 Gwnaed colled actiwaradd o £0.1 miliwn ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig (2016-2017: enillion o £0.6 miliwn).
- 94 Ar 31 Mawrth 2018, mae cyd-drafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn dal i fynd rhagddynt mewn perthynas â'r posibilrwydd o ad-dalu treth incwm a thaliadau Yswiriant Gwladol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â phanelwyr Addasrwydd i Ymarfer. Dilynodd hyn ddyfarniad ym mis Ebrill 2012 fod CThEM bellach yn ystyried nad yw panelwyr Addasrwydd i Ymarfer yr NMC yn ddeiliaid swydd nac yn gyflogeion at ddibenion treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Fe'u dosberthir yn hunangyflogedig. Caiff yr ad-daliad posibl ei ddatgelu fel ased wrth gefn yn y datganiadau ariannol.

- 95 Rydym wedi parhau i atgyfnerthu ein rheolaethau ariannol a gwella prosesau rheoli ac adrodd ariannol yn unol ag argymhellion nifer o adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. Mae adolygiadau archwilio mewnol o'r gyflogres, rheolaethau ariannol allweddol a rheolaethau cyllidebol wedi dangos gwelliannau parhaus.

## **Polisi cronfeydd wrth gefn**

- 96 Rydym yn gweithredu polisi cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg, sy'n darparu y dylai lefel ein cronfeydd rhydd wrth gefn fod yn seiliedig ar asesiad o effaith ariannol bosibl y risgiau a wynebwn, ynghyd â swm i gwmpasu ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn. Mae cronfeydd rhydd wrth gefn ar gael i'w gwario'n rhydd. Nid yw cronfeydd rhydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol na symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol.
- 97 Caiff lefel y cronfeydd wrth gefn ei hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Cyngor. Wrth adolygu'r lefel, mae'r Cyngor yn ystyried asesiad a'r gwaith o fesur y prif risgiau, ac yn cytuno ar amrediad priodol y dylai'r elfen o'r cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg (a elwir hefyd yn 'gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd') gael ei chynnal oddi fewn iddo.
- 98 Ym mis Mawrth 2017, adolygodd y Cyngor y sefyllfa ddiweddaraf o ran y polisi presennol ar gronfeydd wrth gefn a chytunodd y dylid parhau i ddal cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd o fewn amrediad targed o £10 miliwn i £25 miliwn. Cafodd y sefyllfa ei hadolygu eto ym mis Mawrth 2018 – nid oedd wedi newid.
- 99 Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn ddigon i gyflawni ein blaenoriaethau gweithredu a gofynion cyfalaf gweithio os bydd digwyddiad mawr annisgwyl, tra bod arian amgen yn cael ei sicrhau.
- 100 Roedd y cronfeydd wrth gefn digyfyngiad, ar 31 Mawrth 2016, yn £41.2 miliwn (2016-2017: £41.2 miliwn). Roedd cyfanswm y cronfeydd rhydd wrth gefn oedd ar gael, a gyfrifwyd gan adlewyrchu'r amcangyfrif actiwaraid o rwymedigaethau pensiwn, yn £22.3 miliwn (£19.4 miliwn ar 31 Mawrth 2017) ar ôl didynnu gwerth llyfr net asedau sefydlog o £18.9 miliwn (£21.7 miliwn ar 31 Mawrth 2017).

## **Polisi buddsoddi**

- 101 Gallwn fuddsoddi ein cronfeydd dros ben fel y'i hystyrir yn briodol er mwyn cynhyrchu incwm. Ar hyn o bryd mae ein polisi buddsoddi yn cyfyngu ar fuddsoddiadau i opsiynau risg isel.
- 102 Cedwir cronfeydd dros ben yng nghyfrifon adneuo â llog pump o fanciau stryd fawr y DU. Yn 2017-2018 cynhyrchwyd refeniw o £0.3 miliwn o fuddsoddiadau (2016-2017: £0.6 miliwn).
- 103 Caiff y polisi buddsoddi ei adolygu yn 2018-2019.

**Philip Graf**  
Cadeirydd, NMC  
16 Hydref 2018

**Sue Killen**  
Prif Weithredwr Interim a Chofrestrydd, NMC  
16 Hydref 2018

## Adroddiad cydnabyddiaeth

104 Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan archwilywyr allanol, sef haysmacintyre a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

- 105 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac ef sydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y'i disgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen.
- 106 Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth ond maent yn cael lwfans blynyddol yn seiliedig ar y gofyniad bod aelodau yn treulio tri diwrnod y mis ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC.
- 107 O dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, rhaid i'r Cyngor bennu'r lwfansau i'w talu i'r Cadeirydd a'r aelodau. Hyd at 2016-2017, talwyd cyfanswm o £12,000 mewn lwfans blynyddol i aelodau'r Cyngor ers 2009.
- 108 Yn unol â phroses y gwnaeth y Cyngor gytuno arni, cafodd Panel Annibynnol ei sefydlu yn 2016 i gynnal adolygiad o lwfansau aelodau'r Cyngor a gwneud argymhellion. Argymhellodd y Panel weithredu ar ddau gam. Yn ei adolygiad cam 1 yn 2016, argymhellodd y Panel Annibynnol y dylai'r lwfans a dalwyd i aelodau'r Cyngor fod yn unol â'r lefel ganolrif ar draws cyrff rheoleiddio gofal iechyd. Cytunodd y Cyngor ar hyn a chafodd yr argymhelliad ei weithredu yn 2016-2017, gan olygu bod y lwfans blynyddol yn £13,250.
- 109 Cynhaliodd y Panel adolygiad cam 2 yn 2017 gan ystyried ystod ehangach o ddata meincnodi cymharol cyfredol. Roedd yn cynnwys data ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd ac amrywiaeth o sefydliadau eraill. Argymhellodd y Panel y dylai'r lwfans blynyddol gynyddu i £14,724 (2016-2017: £13,250). Cytunodd y Cyngor ar yr argymhelliad hwn ym mis Ionawr 2018. Yn unol â'r arfer, cafodd y newid ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2017.
- 110 Yn ei adolygiad cam 1 yn 2016, ni wnaeth y Panel Annibynnol argymhell y dylai lwfans y Cadeirydd gynyddu am ei fod yn uwch na'r lefel ganolrif a dalwyd i Gadeiryddion ar draws cyrff rheoleiddio gofal iechyd. Yn ei adolygiad cam 2 yn 2017, nododd y Panel Annibynnol fod lwfans y Cadeirydd wedi gostwng yn is na'r lefel ganolrif ar gyfer cyrff rheoleiddio gofal iechyd. Gan ystyried hyn ac amrywiaeth o ddata ar gyfer sefydliadau eraill, argymhellodd y Panel gynnydd i'r gyfradd ganolrif ar draws cyrff rheoleiddio gofal iechyd. Wrth ystyried argymhelliad y Panel, nododd y Cyngor, oherwydd y cynnydd yn y swm o waith, y bu angen i'r Cadeirydd gyfrannu llawer mwy na'r deuddydd gofynnol yr wythnos ar waith yr NMC. Gan ystyried yr amser ychwanegol yr oedd angen i'r Cadeirydd ei dreulio ar waith yr NMC, cymeradwyodd y Cyngor lwfans blynyddol o £63,050 (2016-2017: £48,000). Yn unol â'r arfer, cafodd hyn ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2017.
- 111 Yn 2017, cynhaliodd y Panel Annibynnol adolygiad arall o lwfans y Cadeirydd o 1 Mai 2018, yn seiliedig ar ddisgrifiad rôl newydd y cytunwyd arno gan y Cyngor ac ymrwymiad amser uwch o dridiau'r wythnos. Cytunodd y Cyngor ag argymhelliad y Panel Annibynnol a chymeradwyodd lwfans blynyddol o £78,000.

- 112 Talwyd cyfanswm o £222,560 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2017-2018 (2016-2017: £177,086). Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalen 28. Ni wnaed unrhyw daliadau cytundebol ychwanegol<sup>1</sup> i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2017-2018.
- 113 Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau drwy gyflogres ar wahân lle y didynnir symiau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth yr NMC i aelodau'r Cyngor.
- 114 Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trehadwy. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2017-2018, cronwyd £41,731 ar gyfer y rhwymedigaeth treth hon mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2016-2017: £33,000).
- 115 Mae treuliau yn cynnwys teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth a bydd aelodau'n cronni'r treuliau hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae holl dreuliau'r aelodau wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol. Mae'r treuliau a gaiff aelodau yn amrywio'n fawr oherwydd y costau teithio a llety sy'n gysylltiedig â mynd i gyfarfodydd o gartrefi aelodau ledled y DU, gan gynnwys teithio o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae angen aros dros nos. Mewn blwyddyn hynod brysur arall, bu mwy o faich ar rai aelodau, yn enwedig yr Is-gadeiryddion, y mae'n rhaid i un ohonynt deithio o Ogledd Iwerddon. Adlewyrchir hyn yn y treuliau uwch a dalwyd mewn rhai achosion.

---

<sup>1</sup> Gallai taliadau cytundebol ychwanegol yn y cyd-destun hwn gynnwys taliadau diswyddo a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract.

<b>Aelodau'r Cyngor</b>	<b>Lwfans a dalwyd i'r aelod 2017-2018 (£)</b>	<b>Lwfans a dalwyd i'r aelod 2016-2017 (£)</b>	<b>Treuliau 2017-2018 (£)</b>	<b>Treuliau 2016-2017 (£)</b>
Y Fonesig Janet Finch – Cadeirydd	<b>63,050</b>	<b>48,000</b>	<b>14,352</b>	<b>12,769</b>
Maureen Morgan OBE	<b>14,724</b>	<b>13,250</b>	<b>3,103</b>	<b>2,680</b>
Maura Devlin MBE	<b>14,724</b>	<b>13,250</b>	<b>12,482</b>	<b>13,499</b>
Quinton Quayle <sup>2</sup>	-	<b>9,938</b>	-	<b>2,680</b>
Louise Scull <sup>3</sup>	-	<b>1,000</b>	-	<b>414</b>
Amerdeep Somal <sup>4</sup>	-	<b>9,938</b>	-	<b>2,339</b>
Stephen Thornton CBE	<b>14,724</b>	<b>13,250</b>	<b>2,576</b>	<b>2,259</b>
Lorna Tinsley	<b>14,724</b>	<b>13,250</b>	<b>3,776</b>	<b>4,165</b>
Dr Anne Wright CBE	<b>14,724</b>	<b>13,250</b>	<b>79</b>	<b>434</b>
Robert Parry	<b>14,724</b>	<b>13,250</b>	<b>5,546</b>	<b>4,195</b>
Yr Athro Karen Cox	<b>14,724</b>	<b>13,250</b>	<b>2,485</b>	<b>2,548</b>
Ruth Walker <sup>5</sup>	<b>14,724</b>	<b>7,730</b>	<b>3,411</b>	<b>2,155</b>
Derek Pretty <sup>6</sup>	<b>14,724</b>	<b>7,730</b>	<b>4,884</b>	<b>1,512</b>
Marta Phillips OBE <sup>7</sup>	<b>13,497</b>	-	<b>1,172</b>	-
Syr Hugh Bayley <sup>8</sup>	<b>13,497</b>	-	<b>1,472</b>	-

116 Cafodd aelodau partner, sef aelodau pwyllgorau nad ydynt hefyd yn aelodau o'r Cyngor, lwfans presenoldeb dyddiol o £286 o fis Awst 2017 (£260 rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2017) a threuliau teithio rhesymol.

### **Dulliau a ddefnyddir i asesu perfformiad aelodau**

- 117 Mae gan y Cyngor bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun a'i aelodau. Cynhaliwyd adolygiadau blynyddol o berfformiad y Cadeirydd ac aelodau unigol yn 2017-2018.
- 118 Caiff perfformiad Cadeirydd y Cyngor ei adolygu gan yr Is-gadeiryddion, a hynny drwy adolygiad strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd ac asesiad cymheiriaid gan aelodau'r Cyngor. Defnyddir y canlyniadau i gytuno ar amcanion a phennu anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol o'r Cyngor a arweinir gan y Cadeirydd.

### **Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad yr uwch dîm rheoli**

- 119 Mae'r uwch dîm rheoli (sef y Tîm Gweithredol) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Yn ystod 2017-2018 roedd pob cyfarwyddwr yn atebol i'r Prif Weithredwr, a hynny'n uniongyrchol. Nid oes unrhyw

<sup>2</sup> Ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2016.

<sup>3</sup> Ymddiswyddodd 30 Ebrill 2016.

<sup>4</sup> Ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2016.

<sup>5</sup> Penodwyd 1 Medi 2016.

<sup>6</sup> Penodwyd 1 Medi 2016.

<sup>7</sup> Penodwyd 1 Mai 2017.

<sup>8</sup> Penodwyd 1 Mai 2017.

Gyfarwyddwr Gweithredol yn aelod o'r Cyngor nac yn un o ymddiriedolwyr yr NMC.

- 120 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol.
- 121 Mae'r Cyngor, yn unol â chynghor y Pwyllgor Archwilio, wedi penderfynu bod pob aelod o'r Tîm Gweithredol (gan gynnwys unrhyw ddeiliaid swyddi dros dro) yn bersonél allweddol. Caiff manylion cydnabyddiaeth yr holl unigolion hyn eu datgan yn llawn yn **nhablau 1, 2.1 a 2.2**.
- 122 Fel arfer mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. O ran cyfarwyddwyr, mae'n ofynnol iddynt roi tri mis o rybudd.
- 123 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried ac yn argymhell i'r Cyngor strategaeth wobrwyo briodol ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr. Y Pwyllgor sy'n cymeradwyo pecyn gwobrwyo'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth wobrwyo a bennwyd gan y Cyngor.

## **Asesiad o berfformiad y Tîm Gweithredol**

- 124 Yn 2016, ar sail argymhelliad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, penderfynodd y Cyngor ddiddymu cynllun bonws perfformiad blaenorol y Tîm Gweithredol, gan adolygu hynny ar ôl 12 mis. Yn 2017, penderfynodd y Cyngor, ar sail argymhelliad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, roi'r gorau i'r cynllun bonws gan ffafrio ymrwymo i adolygiad blynyddol o gydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol yn seiliedig ar y farchnad, a pharhau â'r broses ffurfiol o werthuso ei berfformiad.
- 125 Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi parhau i werthuso perfformiad y Tîm Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd ar berfformiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Mae hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar berfformiad y cyfarwyddwyr.

## **Cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol 2017-2018**

- 126 Yn ystod 2017-2018 cynhaliodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ei adolygiad blynyddol o gydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol yn unol ag egwyddorion fframwaith cyflogau'r Tîm Gweithredol a gymeradwywyd yn 2016.
- 127 Ystyriodd yr adolygiad annibynnol o holl rolau Tîm Gweithredol yr NMC gan arbenigwyr cyflogau allanol. Gwerthusodd yr adolygiad gyflogau'r Tîm Gweithredol yn erbyn cyflogau cyffelyb yn y farchnad rheoleiddio gofal iechyd ehangach, yn ogystal â gwneud gwaith meincnodi ehangach yn erbyn cyflogau cyffelyb o fewn y GIG, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Daeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth i'r casgliad nad oedd angen gwneud newidiadau sylweddol i fframwaith y Tîm Gweithredol ac y dylai barhau i gael yr un cynnydd blynyddol o ran costau byw â staff ar Radd G ac uwch (2 y cant). Hefyd, cytunodd y dylai dau

gyfarwyddwr gael lwfans anghyfunol ychwanegol er mwyn adlewyrchu eu cyfrifoldebau ychwanegol.

- 128 Roedd pecyn cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr ar gyfer 2017-2018 yn cynnwys cyflog sylfaenol o £196,707 (2016-2017: £192,850). Hefyd, cafwyd cynnydd yng ngwerth y buddiannau pensiwn o £40,411, gan arwain at gydnabyddiaeth o £237,118 (yn 2016-2017, £215,163 oedd y gydnabyddiaeth gyda chynnydd o £40,864 yng ngwerth y buddiannau pensiwn, gan arwain at gydnabyddiaeth o £256,027).
- 129 Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd unrhyw fuddiannau nad oeddent yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2017-2018.
- 130 Mae cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol wedi'i nodi yn **nhabl 1** ac mae'r hawliad pensiwn wedi'i nodi yn **nhablau 2.1 a 2.2**. Nodir hawliadau pensiwn yn ôl y math o gynllun pensiwn. Rhestrir aelodau'r cynllun buddiannau diffiniedig yn nhabl 2.1 yn unol ag adroddiadau pensiwn buddiannau diffiniedig safonol. Rhestrir aelodau'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn nhabl 2.2 a dangosir cyfraniadau'r cyflogwr a dalwyd ar ran pob cyfarwyddwr.
- 131 Talwyd cyfanswm o £1.794 miliwn i'r Tîm Gweithredol (gan gynnwys aelodau parhaol a dros dro) yn 2017-2018 (2016-2017: £1.254 miliwn).

### **Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad aelodau eraill o staff**

- 132 Mae pob cyflogai yn ymgymryd â chyfnod prawf o chwe mis pan fydd yn dechrau mewn cyflogaeth a disgwylir iddo roi rhybudd o un i dri mis yn dibynnu ar radd y swydd.
- 133 Adolygir cydnabyddiaeth pob cyflogai bob blwyddyn gan ystyried amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys fforddiadwyedd, data meincnodi, a data recriwtio a chadw yn gyffredinol. Cymeradwyodd y Cyngor godiad cyflog o 2 y cant i bob aelod o staff o 1 Ebrill 2017 (2016-2017: rhwng 1.5 a 3 y cant yn dibynnu ar y lefel o gyflog) gyda darpariaeth i gynyddu ymhellach gyflogau cyflogeion ar raddfeydd cyflog is fel eu bod yn fwy cyson â'r gyfradd ganolrif ar gyfer eu graddfa gyflog.
- 134 Fel y cytunwyd gan y Cyngor yn 2015-2016, ar sail cyngor y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, caiff y Tîm Gweithredol dalu cyfraddau gwahanol am sgiliau arbenigol mewn meysydd wedi'u targedu lle mae hynny'n hanfodol er mwyn denu a chadw staff i gyflawni swyddogaethau sefydliadol allweddol.
- 135 Yn ystod 2017 gwnaethom ddechrau gweithio ar adolygu ein trefniadau cydnabyddiaeth presennol a chymryd y camau cychwynnol tuag at ddatblygu strategaeth wobrwyo newydd. Bydd strategaeth wobrwyo newydd yn rhoi set sylfaenol o egwyddorion i ni a fydd yn ein helpu i ddangos ein bod yn gyflogwr gwahanol yn y sector rheoleiddio gofal iechyd, fel ein bod yn parhau i fod yn ddeniadol i ddarpar gyflogeion a chyflogeion presennol. Mae hwn yn waith hirdymor tan 2020, a fydd yn ein galluogi i gydbwyso fforddiadwyedd â chadw'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen yn ogystal â chynnal a datblygu ein brand fel cyflogwr.



136 Gweithredwyd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad yn ôl yr arfer drwy gydol y flwyddyn ond nid oedd yn gysylltiedig ag ystyriaethau cyflog. Cafodd cynllun arfarnu newydd ei lansio i gyflogeion ym mis Ebrill 2018. Un o'r prif ystyriaethau wrth ddatblygu ein strategaeth wobrwyo fydd penderfynu sut i fynd ati i sicrhau bod ein polisi a'n cyfraddau gwobrwyo yn parhau i fod yn gyfredol ac yn gystadleuol, a beth a wnawn y tu hwnt i gyflog sylfaenol er mwyn adeiladu pecyn gwobrwyo cyffredinol sy'n ein helpu i ddisgrifio ein brand fel cyflogwr.

## **Trefniadau pensiwn**

- 137 Mae gennym ddau gynllun pensiwn: cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.
- 138 Mae cyflogeion sy'n aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig yn cyfrannu gwerth chwech y cant o'u cyflog. Cyfrannodd y cyflogwr 39.3 y cant at y cynllun pensiwn yn ystod 2017-2018 (2016-2017: 29.2 y cant), fel y nodwyd gan Actwari'r Cynllun. Roedd tua 17 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun hwn ar 31 Mawrth 2018 (31 Mawrth 2017: 19 y cant). Caewyd y cynllun i gyflogeion a ymunodd â'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013
- 139 Gwnaethom sefydlu cynllun cyfraniadau diffiniedig o 1 Tachwedd 2013 y gallai cyflogeion a ymunodd â'r NMC ar neu ar ôl y dyddiad hwn ddewis ymuno ag ef. Mabwysiadwyd y cynllun fel cynllun pensiwn gweithle'r NMC at ddibenion awto-gofrestru o 1 Ebrill 2014 pan gafodd pob cyflogai cymwys ei gofrestru'n awtomatig ar gyfer y cynllun. Ar 31 Mawrth 2018, roedd 96 y cant (31 Mawrth 2017: 90 y cant) o'r rheini a ymaelododd â'r cynllun yn dal i fod yn rhan ohono. Yn ystod 2017-2018 y cyfraniadau gofynnol sylfaenol i'r cynllun oedd 1 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai. Talodd yr NMC fwy na'r cyfraniadau gofynnol, sef 7 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai (2016-2017: 6 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai).

## **Gwahaniaethau cyflog yn yr NMC**

- 140 Yr aelod o staff parhaol â'r cyflog mwyaf yn 2017-2018 oedd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac rydym wedi defnyddio ei chyflog fel cymharydd wrth gyfrifo'r gwahaniaeth o gymharu â chydabyddiaeth ganolrifol y gweithlu. Roedd cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd 6.26 gwaith cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu (2016-2017: 6.47 gwaith), sef £31,426 (2016-2017: £29,815). Mae'r gydnabyddiaeth yn y cyfrifiad hwn yn seiliedig ar gyflog blynyddol. Nid yw'n cynnwys cyflog cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol, buddiannau mewn da, gwyliau blynyddol â thâl, taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.
- 141 Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodiadau 9 a 10 i'r cyfrifon.

**Philip Graf**  
**Cadeirydd, NMC**

**16 Hydref 2018**

**Sue Killen**  
**Prif Weithredwr Interim a Chofrestrydd,**  
**NMC**

**16 Hydref 2018**

## Tabl 1: Cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol 2017-2018

			Cyfanswm Cyflog a Dalwyd	Taliadau eraill <sup>1</sup>	Taliad yn lle rhybudd Diswyddiad	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr	Yswiriant Gwladol y cyflogwr	Cyfanswm a dalwyd 2017-2018	Cyfanswm a dalwyd 2016-2017
			£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Jackie Smith	Prif Weithredwr a Chofrestrydd		195-200	-	-	-	60-65	285-290	285-290
Alison Sansome	Prif Swyddog Gweithredu	gadawodd 7 Ebrill 2017	0-5	15-20	35-40	35-40	320-325	425-430	210-215
Tom Kirkbride	Cyfarwyddwr Cofrestru Interim	gadawodd 15 Gorffennaf 2016	-	-	-	-	-	-	60-65
Sarah Page	Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer	gadawodd 31 Rhagfyr 2017	105-110	15-20	-	-	40-45	180-185	190-195
Matthew McClelland	Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer	penodwyd 1 Mehefin 2017	105-110	-	-	-	40-45	165-170	-
Emma Broadbent	Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu	penodwyd 4 Gorffennaf 2016	120-125	-	-	-	10-15	150-155	110-115
Geraldine Walters	Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Pholisi	penodwyd 1 Medi 2016	150-155	-	-	-	10-15	180-185	100-105
Judith Toland	Cyfarwyddwr Trawsnewid	penodwyd 16 Mai 2016, gadawodd 31 Hydref 2017	75-80	0-5	20-25	-	5-10	125-130	140-145
Adam Broome	Cyfarwyddwr Adnoddau	penodwyd 23 Mai 2016, gadawodd 9 Chwefror 2018	110-115	0-5	25-30	-	10-15	165-170	120-125
Sarah Daniels	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	penodwyd 12 Hydref 2017	55-60	-	-	-	5-10	70-75	-
<b>Contractwyr:</b>									
Gary Walker	Cyfarwyddwr Adnoddau Interim <sup>2</sup>	penodwyd 9 Chwefror 2018	20-25	-	-	-	0-5	25-30	-
Rachel Murphy	Prif Swyddog Technoleg	gadawodd 31 Awst 2016	-	-	-	-	-	-	85-90
Annette Clinnick	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	gadawodd 30 Mehefin 2016	-	-	-	-	-	-	0-5
Richard Finlayson	Cyfarwyddwr Cyllid	gadawodd 3 Mehefin 2016	-	-	-	-	-	-	45-50

Nodiadau:

- 1 Mae taliadau eraill yn ymwneud â gwyliau blynyddol nas cymerwyd nas talwyd allan.
- 2 Nid yw band cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Adnoddau Interim yn cynnwys TAW.

## Tabl 2.1: Gwybodaeth pensiwn buddiannau diffiniedig y Tîm Gweithredol 2017-2018

		Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60	Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60	Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn gweddilliol yn 60 yn ystod y flwyddyn adrodd	Cyfanswm a gronnyd yn 60 ar 31 Mawrth 2018	Cyfandaliad yn 60 yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Maw 2018 gyda'r aelod yn cymryd uchaf. yr arian di-dreth	Y swm o bensiwn cron-edig gweddilliol yn 60	Gwerth trosglwyddo arian cyfatebol ar 1 Ebrill 2017	Gwerth trosglwyddo arian cyfatebol ar 31 Maw 2018	Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo arian cyfatebol	Cynnydd gwirioneddol yng ngwerth buddiannau pensiwn
		Bandiau £2,500	Bandiau £2,500	Bandiau £2,500	Bandiau £5,000	Bandiau £5,000	Bandiau £5,000	l'r £1,000 agosaf	l'r £1,000 agosaf	l'r £1,000 agosaf	l'r £1,000 agosaf
Jackie Smith	Prif Weithredwr a Chofrestrydd	0-2,500	12,500-15,000	0-2,500	15,000-20,000	95,000-100,000	10,000-15,000	594,000	697,000	79,000	40,000
Alison Sansome	Prif Swyddog Gweithredu	5,000-7,500	(30,000-32,500)	5,000-7,500	15,000-20,000	20,000-25,000	15,000-20,000	378,000	655,000	197,000	115,000
Matthew McClelland	Cyfarwyddwr Addaswydd i Ymarfer	2,500-5,000	17,500-20,000	2,500-5,000	10,000-15,000	55,000-60,000	5,000-10,000	199,000	320,000	101,000	66,000
Sarah Page	Cyfarwyddwr Addaswydd i Ymarfer	0-2,500	12,000-15,000	0-2,500	30,000-35,000	165,000-170,000	25,000-30,000	1,060,000	1,176,000	82,000	43,000

## Tabl 2.2: Gwybodaeth pensiwn cyfraniadau diffiniedig y Tîm Gweithredol 2017-2018

Tabl 2.2. Gwybodaeth pensiwn cyfraniadau diffiniedig yr uwch dîm rheoli 2017-2018

Cyfraniadau cyflogwr yr NMC l'r £1,000 agosaf	
Emma Broadbent	15,000
Geraldine Walters	11,000
Judith Toland	9,000
Sarah Daniels	6,000
Adam Broome	12,000

### Nodiadau:

1 Roedd cyfraniadau sylfaenol i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig yn 1% cyflogai a 7% cyflogwr ar gyfer pob aelod yn 2017-2018. Gall cyflogeion gyfrannu symiau ychwanegol am bob 1% a delir. Gwnaeth yr NMC gyfateb i uchafswm o 5% ychwanegol yn 2017-2018.

## **Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon**

- 142 Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.
- 143 Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau (SoRP) a ddiwygiwyd yn 2015 a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd (Atodiad 1).
- 144 Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'i symudiad net mewn cronfeydd ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:
- dilyn y penderfyniad ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
  - dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
  - dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
  - llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
  - paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
  - datgan p'un a ddilynydd safonau cyfrifyddu cymwys
  - datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.
- 145 Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleiddra arall.
- 146 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir ei ch[gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei ch[gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleiddra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, ym

*Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac yn Managing public money (Trysorlys EM, 2013).*

147 Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon yn eu cyfanwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mae'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

### **Prif le busnes**

148 Mae'r NMC yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place  
London  
W1B 1PZ

### **Cynghorwyr**

#### **Archwiliwr Allanol Annibynnol**

haysmacintyre  
Chartered Accountants  
10 Queen Street Place  
London  
EC4R 1AG

#### **Bancwyr**

HSBC Bank Plc  
Space One, Floor 2  
1 Beadon Road  
London  
W6 0EA

#### **Archwilydd Mewnol**

Moore Stephens  
150 Aldersgate Street  
London  
EC1A 4AB

#### **Archwilwyr Statudol**

Comptroller and Auditor General  
National Audit Office  
157-197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
London  
SW1W 9SP

#### **Cyfreithwyr**

Blake Morgan LLP  
Harbour Court  
Compass Road  
North Harbour  
Portsmouth  
PO6 4ST

Capsticks Solicitors LLP  
1 St Georges Road  
London  
SW19 4DR

Field Fisher Waterhouse LLP  
Riverbank House  
2 Swan Lane  
London  
EC4R 3TT

## Datganiad llywodraethu blynyddol

149 Mae'r NMC yn gorff statudol annibynnol. Nodir ein pwerau a'n cyfrifoldebau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn) ac yn ein rheolau statudol.<sup>9</sup> Rydym hefyd yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362). Ein hamcan elusennol yw amddiffyn a diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ac eglurwn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn sut mae ein gwaith yn dangos budd y cyhoedd.

### Y Cyngor

- 150 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo materion yr NMC, gan sicrhau ei fod yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd i'r cyhoedd.
- 151 Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu cyfeiriad strategol a gwerthoedd corfforaethol yr NMC, yn unol â'i ddiben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer swyddogaethau'r NMC a defnyddio cronfeydd, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt. Mae Cynllun Dirprwyo'r NMC yn nodi materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn ffurfiol i'r Cyngor.
- 152 Cyfansoddwyd y Cyngor yn unol â Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.<sup>10</sup> Mae'n cynnwys 12 aelod a nifer gyfartal o aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg. Aelodau lleyg yw'r rhai nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs na bydwaig gofrestredig. Fel rheoleiddiwr sy'n gweithio ledled y DU, mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 153 Penodir aelodau'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor, yn dilyn proses recriwtio agored a chystadleuol. Caiff y Cyfrin Gyngor sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ynghylch cadernid y broses benodi neu ailbenodi a fabwysiadwyd gan yr NMC.
- 154 Dechreuodd dau aelod lleyg newydd, sef Syr Hugh Bayley a Marta Phillips OBE, yn eu rôl ar 1 Mai 2017. Cafodd Robert Parry ei ailbenodi gan y Cyfrin Gyngor am dymor pellach o 1 Mai 2018.
- 155 Cafodd Philip Graf CBE ei benodi'n Gadeirydd y Cyngor o 1 Mai 2018 pan ddaeth cyfnod y Fonesig Janet Finch yn y swydd i ben.
- 156 Cafodd Claire Johnston ei phenodi i'w rôl o 1 Medi 2018 gan gymryd lle aelod cofrestredig y daeth ei ail dymor i ben ar 30 Ebrill 2018.
- 157 Nodir aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor yn ystod 2017-2018 isod.

---

<sup>9</sup> OS 2002/253

<sup>10</sup> OS 2012/2745

## Aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018

Aelod	Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd
Y Fonesig Athro Janet Finch	6/6
Yr Athro Karen Cox	5/6
Maura Devlin MBE	6/6
Maureen Morgan OBE	5/6
Robert Parry	6/6
Stephen Thornton CBE	6/6
Lorna Tinsley	5/6
Dr Anne Wright CBE	5/6
Ruth Walker	6/6
Derek Pretty	6/6
Marta Phillips OBE (penodwyd 1 Mai 2017)	4/6
Syr Hugh Bayley (penodwyd 1 Mai 2017)	6/6

- 158 Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cynnwys sesiwn gyhoeddus a sesiwn gyfrinachol. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol, mae aelodau'r Cyngor hefyd yn mynychu seminarau misol, yn cynnal telagynadleddau, ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau eraill.

### Effeithiolrwydd Llywodraethu

- 159 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lywodraethu o safon uchel. Mae ein harfer yn cydymffurfio â Chod Arfer Da Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet i adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau y bo'n gymwys. Rydym hefyd yn ceisio bodloni'r egwyddorion a'r arfer a argymhellir a geir yng Nghod Llywodraethu Elusennau. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus, sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.
- 160 Caiff aelodau'r Cyngor sesiwn sefydlu lawn ar ôl eu penodi a chânt arfarniadau unigol bob blwyddyn, sy'n eu helpu i ddatblygu'n unigol ac ar y cyd yn y dyfodol, yn ogystal â helpu i ystyried ailbenodiadau.
- 161 Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd ei hun. Cafodd adolygiad 2017 ei lywio gan ymarfer meincnodi a wnaeth fapio polisïau a phrosesau'r Cyngor yn erbyn ffynonellau arfer da a chanllawiau allanol, gan gynnwys Cod Llywodraethu diwygiedig Elusennau (2017), Cod Arfer Da Llywodraethu Corfforaethol Swyddfa'r Cabinet (2017) ac adroddiad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, sef *Striking the Balance: Upholding the Seven Principles of Public Life in Regulation* (2016). Hefyd, gwnaeth aelodau'r Cyngor adolygu'r ffordd maent yn cyflawni eu rôl fel ymddiriedolwyr gyda chymorth arbenigwr llywodraethu elusennau allanol.
- 162 Cadarnhaodd ein hadolygiad blynyddol o effeithiolrwydd fod ein polisïau a'n prosesau llywodraethu yn cydymffurfio ag egwyddorion a chanllawiau arfer da. Ymhlith y meysydd i'w gwella a nodwyd roedd: sut mae'r Cyngor yn cael sicrwydd

ynghylch ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd; dull cryfach o ddysgu o gwynion a dulliau eraill o gefnogi gwelliant parhaus; a chyfleu'n gliriach y ffyrdd o uwchgyfeirio materion o bwys i'r Cyngor.

- 163 Hefyd, cyflawnodd aelodau'r Cyngor weithgareddau datblygu eraill yn ystod y flwyddyn. Yn fewnol, roedd y rhain yn cynnwys sesiynau gloywi a gynhaliwyd gan y cyfarwyddiaethau Addaswydd i Ymarfer a Chofrestru a sesiynau briffio ar raglenni gwaith allweddol, fel addysg a chymdeithion nyrsio. Yn allanol roeddent yn cynnwys ymweliadau i glywed am brofiadau myfyrwyr, addysgwyr, cofrestrwyr a chyflogwyr.
- 164 Parhaodd y Cyngor i gael budd o gyngor Cynghorwyr TGCh ac Ariannol Annibynnol a benodwyd ganddo i roi sicrwydd ychwanegol ar ansawdd cynlluniau ariannol a thechnolegol.

## **Pwyllgorau'r Cyngor**

- 165 Mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio o hyd; Pwyllgor Cydnabyddiaeth; a Bwrdd Penodiadau i'w helpu i gyflawni ei rôl. Caiff y broses o benodi aelodau'r Cyngor i'r Pwyllgorau Archwilio a Chydnabyddiaeth ei llywodraethu gan reolau sefydlog y Cyngor a'i gynllun dirprwyo, ynghyd â chyfres o egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2015. Caiff aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor ei hadolygu bob blwyddyn. Nid yw aelodau'r Bwrdd Penodiadau yn aelodau o'r Cyngor a chânt eu penodi yn dilyn proses recriwtio agored.
- 166 Cafodd y gofyniad statudol i gael Pwyllgor Bydwreigiaeth ei ddileu gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2017. O 1 Ebrill 2017, daeth y Cyngor, yn ei gyfanrwydd, yn gyfrifol am faterion yn effeithio ar reoleiddio bydwreigiaeth, gyda threfniadau yn cael eu gwneud i sicrhau ei fod yn gallu cael gafael ar gyngor ac arbenigedd ar faterion sy'n effeithio ar fydwreigiaeth, a hynny'n briodol.
- 167 Nodir isod gylch gwaith, aelodaeth a chofnod presenoldeb pob Pwyllgor.

## **Pwyllgor Archwilio**

- 168 Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

<b>Aelod</b>	<b>Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd</b>
Marta Phillips OBE (Cadeirydd)	4/4
Maureen Morgan OBE	3/4
Robert Parry	4/4
Derek Pretty	4/4



## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

169 Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn yr NMC. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

Aelod	Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd*
Stephen Thornton CBE (Cadeirydd)	8/8
Maura Devlin MBE	8/8
Karen Cox	8/8

\* Yn cynnwys pedwar cyfarfod drwy telagynadleda

## Bwrdd Penodiadau

170 Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor i arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol. Mae'r Bwrdd Penodiadau yn cynnwys aelodau (partner) nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor. Yn ystod 2017-2018, cafodd dau aelod newydd eu penodi i'r Pwyllgor a'u sefydlu. Cafodd Cadeirydd newydd y Pwyllgor ei benodi i ddechrau yn y rôl ym mis Awst 2018.

171 Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

Aelod	Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd
Belinda Phipps (Cadeirydd)	2/3
Bridget Anderson (hyd at 31 Ionawr 2018 )	2/2
Mary Dowling (hyd at 31 Ionawr 2018)	1/2
Fiona Whiting	2/3
Frederick Psyk	3/3
Angie Loveless (penodwyd 1 Mawrth 2018)	1/1
Clare Salters (penodwyd 1 Mawrth 2018)	1/1

## Rôl y Tîm Gweithredol

172 Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Cylch gwaith y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain materion a rheoli adnoddau'r NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

173 Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnyddio adnoddau yn effeithiol.

174 Gadawodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a fu yn y rôl am chwe blynedd ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r Cyngor wedi penodi Prif Weithredwr a Chofrestrydd

parhaol a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2019, ynghyd â Phrif Weithredwr a Chofrestrydd Interim i gymryd y llyw yn y cyfamser.

- 175 Y Bwrdd Gweithredol yw'r prif gorff sy'n gwneud penderfyniadau llywodraethu yn fewnol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r holl gyfarwyddwyr. Ei gylch gwaith yw helpu'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i gyflawni ei d(d)yletswyddau drwy: ddatblygu a gweithredu strategaethau, polisïau, cynlluniau busnes, a chyllidebau; monitro perfformiad gweithredol ac ariannol; gwerthuso a rheoli risg; a blaenoriaethu a dyrannu adnoddau.

## **Goruchwyliaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)**

- 176 Mae PSA yn gyfrifol am oruchwyllo gwaith y naw rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol a chyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Senedd ar eu perfformiad. Yn 2017, gofynnodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda'n cefnogaeth, i PSA gynnal Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd o'r ffordd y gwnaethom ymdrin ag achosion yn ymwneud â bydwragedd a oedd yn gweithio yn Ysbytai Prifysgol Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Bae Morecambe. Gwnaethom weithio'n agos gyda PSA ar yr adolygiad hwn, a chrosawyd ei gyhoeddi ym mis Mai 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion pwysig i ni a rheoleiddwyr eraill. Gwnaethom dderbyn yr holl argymhellion yn llawn ac, fel y trafodwyd yn gynharach, byddwn yn eu datblygu yn ystod 2018-2019.
- 177 Bu oedi cyn i PSA gynnal adolygiad blynyddol o'n perfformiad ar gyfer 2016-2017, wrth i'r Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd gael ei gwblhau. Cyhoeddodd PSA ei adroddiad ym mis Mehefin 2018, a ddangosodd ein bod yn cyrraedd 23 o'r 24 o Safonau Rheoleiddio Da.

## **Strategaeth yr NMC ar gyfer 2015-2020**

- 178 Mae gan y Cyngor strategaeth pum mlynedd, sef *Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* 2015-2020, sy'n nodi ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr deinamig, blaengar a deallus. Parheir i roi'r Strategaeth ar waith drwy gynlluniau corfforaethol blynyddol, a ategir gan gynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau.
- 179 Yn ystod 2016-2017, cyflwynwyd rhaglen drawsnewid i edrych ar bob agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys pobl; trefniadaeth; lleoliad; a gwerth am arian. Ym mis Mawrth 2017, cytunodd y Cyngor, mewn egwyddor, i fwrw ymlaen â cham cychwynnol ar y gwaith, yn amodol ar achos busnes llawn ac adolygiad Gateway pellach. Cydnabu'r Cyngor, o ystyried bod rhaglenni rheoleiddio mawr eraill ar waith, gan gynnwys addysg a chymdeithion nyrsio, y byddai angen cadw llygad agos ar raddau'r newid a monitro effaith gronnu agenda mor sylweddol. Ar ddechrau 2017-2018, yn sgil pwysau mewnol ac allanol dilynol a arweiniodd at flaenoriaethau gwaith ychwanegol nas cynlluniwyd, penderfynodd y Cyngor ailflaenoriaethu gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar ddau faes gwella allweddol: pennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer a moderneiddio'r seilwaith TG.

## Ansawdd data

- 180 Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad a risg ym mhob cyfarfod. Mae'n rhagweithiol wrth benderfynu, gyda'r Tîm Gweithredol, ar y data sydd eu hangen arno er mwyn deall perfformiad a materion eraill yn effeithiol. Caiff y broses o adrodd ar berfformiad ei hadolygu'n barhaus gyda'r nod o wneud gwelliannau cyson.
- 181 Mae popeth a wnawn yn dibynnu ar wybodaeth gywir ac amserol. Ein data yw ein hased pwysicaf. Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o welliannau i brosesau rheoli data a darparu gwybodaeth yn 2017. Bydd ein strategaeth TG yn datblygu hyn ymhellach drwy wella'r broses o awtomeiddio gwybodaeth reoli, moderneiddio technoleg er mwyn prosesu'r wybodaeth honno, a rhannu gwybodaeth yn well â chyrrff rheoleiddio a phartneriaid eraill.
- 182 Hefyd, gwnaethom gyhoeddi mwy o ddata yn 2017-2018, gan ddiweddarau'r gofrestr, gan gynnwys data ar nyrsys a bydwragedd sy'n ymuno â'r gofrestr ac yn ei gadael o'r DU, yr UE a thu hwnt.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

- 183 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn er mwyn galluogi'r NMC i gyflawni ei ddiben rheoleiddio craidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn hytrach na'i dileu, ac i roi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg.
- 184 Y Cyngor sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli risg ac mae'n cynnal adolygiad corfforaethol blynyddol o risgiau. Trafododd y Cyngor y prif risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, gydag adolygiad lefel uchel yn cael ei gynnal ar lwyfan cyhoeddus a gwaith craffu manylach mewn sesiwn breifat. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y broses o reoli risg, ac mae'n ystyried effeithiolrwydd y broses rheoli risg yn ei gyfarfodydd.
- 185 Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau bod system rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith. Ar y cyd â'r cyfarwyddwyr, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau bod y systemau hyn yn cael eu gweithredu. Drwy'r cyfarwyddwyr, mae'n gyfrifol am nodi a gwerthuso risgiau, rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith a monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno. Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn rheolaidd.
- 186 Adolygwn effeithiolrwydd ein prosesau a'n gweithdrefnau rheoli risg bob blwyddyn. Cynhelir adolygiadau risg cynhwysfawr gan y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Cyngor yn ymchwilio'n ddwfn er mwyn deall y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at risgiau a phrofi p'un a yw'r camau rheoli'n briodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn mynd ati i adolygu'n fanwl brosesau, gweithdrefnau a sicrwydd rheoli risg cyfarwyddiaethau er mwyn pennu p'un a yw prosesau rheoli risg yn gadarn.

187 Ar gyfer 2018-2019 bydd yn cyflwyno fframwaith sicrwydd corfforaethol er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio a'r rheolwyr gael trosolwg o'r rheolaethau sydd ar waith o fewn y sefydliad cyfan.

## **Pwyllgor Archwilio**

188 Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi hysbysu'r Cyngor am gryfder y sicrwydd sydd ar gael. Ymhlith y materion yr aeth y Pwyllgor i'r afael â nhw roedd:

188.1 Adolygu'r adroddiadau a'r llythyrau sylwadau i'r archwilwyr allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) mewn perthynas â'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 ac ymatebion rheolwyr i'r archwiliad allanol ac argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon statudol a'r adroddiad blynyddol ar addasrwydd i ymarfer.

188.2 Adolygu'r polisiau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

188.3 Adolygu trefniadau rheoli risg a sicrwydd, gan gynnwys rheoli risg seiberddiogelwch.

188.4 Cymeradwyo cynllun gwaith archwilio mewnol 2017-2018, adolygu canlyniadau'r adroddiad archwilio mewnol a goruchwylio camau gweithredu er mwyn mynd ati i gau pen y mwdwl ar argymhellion archwilio mewnol nas gweithredwyd.

188.5 Adolygu digwyddiadau difrifol ac achosion o ddatgelu data, fel bod gwersi yn cael eu rhannu a'u dysgu ar draws y sefydliad er mwyn atal hynny yn y dyfodol.

188.6 Craffu ar unrhyw weithred tendr unigol er mwyn sicrhau ei hun fod y Tîm Gweithredol yn dilyn prosesau caffael priodol. Gofynnodd y Pwyllgor am i gofrestr gael ei llunio er mwyn dwyn ynghyd Weithredoedd Tendr Unigol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cynnydd mewn tryloywder wedi galluogi'r Pwyllgor i graffu'n agosach er mwyn nodi unrhyw dueddiadau a sicrhau ei hun y gellir amddiffyn pob gweithred tendr unigol.

188.7 Monitro'r broses o weithredu a defnyddio'r polisiau mewnol ar gyfer Chwythu'r Chwiban a Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Mae hyn yn ei sicrhau yr ymchwilir yn llawn i unrhyw faterion a godir ac y caiff unrhyw gamau a gwersi eu datblygu.

188.8 Cymeradwyo'r broses ar gyfer aildendro'r contract Archwilio Mewnol. Gwnaeth dau aelod o'r Pwyllgor, gan gynnwys y Cadeirydd, gefnogi'r gwaith o ddatblygu manyleb y tendr a gwnaethant eistedd ar y panel asesu a werthusodd y cynigion. Daeth yr Archwilwyr Mewnol newydd yn gyfrifol o fis Ebrill 2018.

## **Datgeliadau er budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban)**

- 189 Gwnaethom nifer o ddiwygiadau i'n polisi Chwythu'r Chwiban (datgeliad er budd y cyhoedd) yn ystod 2017-2018 er mwyn gwneud y polisi yn fwy eglur a gwella'r broses o'i roi ar waith. Mae'r polisi yn cwmpasu achosion o chwythu'r chwiban gan ein staff ein hunain neu eraill sy'n gweithio i ni. Cafodd y diwygiadau hyn eu gwneud mewn ymateb i awgrymiadau a wnaed yn ystod hyfforddiant staff. Hefyd, cyhoeddwyd canllawiau er mwyn helpu staff sy'n codi pryder o dan y polisi neu y gall fod angen iddynt gymryd rhan mewn ymchwiliad. Cyhoeddwyd canllawiau ar wahân i reolwyr er mwyn eu helpu i ddeall yr hyn i'w wneud os bydd aelod o staff yn codi pryder gyda nhw.
- 190 Rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth staff o'r polisi a sicrhau, yn unol â chod ymarfer Public Concern at Work, fod hyfforddiant ar gael i staff sy'n gyfrifol am gael datgeliadau o dan y polisi.
- 191 Caiff y Pwyllgor Archwilio wybod am bob achos o chwythu'r chwiban. Ni fu angen rhoi'r polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 (2016-2017: unwaith).

## **Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol**

- 192 Mae'n ofynnol i bob aelod o staff roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu achosion y bu bron iddynt ddigwydd pan aiff pethau o le. Ymchwilir i'r rhain o dan ein proses adolygu digwyddiadau difrifol er mwyn nodi gwersi a rhoi mesurau ar waith fel nad ydynt yn digwydd eto. Dadansoddwn y gwersi o'r rhain ynghyd â'r gwersi o gwynion corfforaethol. Bydd y cyfarwyddwyr yn ystyried crynodeb o'r prif themâu a'r gwersi a nodwyd o'r dadansoddiad hwn bob chwarter, ynghyd â gwybodaeth am yr hyn a wnaed i fynd i'r afael â'r materion. Caiff hyn ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod, ynghyd â manylion y digwyddiadau mwyaf difrifol yn y chwarter blaenorol. Canolbwyntir ar nodi gwersi a chynllunio a gweithredu mesurau ataliol fel na welir yr un peth yn digwydd eto.
- 193 Yn ystod 2017-2018, cofnodwyd cyfanswm o 68 o ddigwyddiadau difrifol, yn bennaf mewn perthynas â'n swyddogaethau cofrestru ac ailddilysu, ac addaswyd i ymarfer. Dyma yw'r ddau faes o fewn y sefydliad lle gwelir y nifer fwyaf o drafodion a rhyngweithiadau â chofrestryddion a rhanddeiliaid eraill. Yn sgil y digwyddiadau difrifol, cafodd ein prosesau eu hadolygu a'u hatgyfnerthu, yn enwedig mewn perthynas â diogelu gwybodaeth a chyfathrebu mewnol ac allanol. Diweddarwyd dogfennau canllaw mewnol a rhoddwyd hyfforddiant gloywi ac ychwanegol i staff.

## **Llywodraethu gwybodaeth a diffygion o ran diogelwch**

- 194 Mae polisïau'r NMC yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am bob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelu gwybodaeth, gan gynnwys colli unrhyw ddata personol. Caiff digwyddiadau eu monitro gan y Bwrdd Llywodraethu a Diogelu Gwybodaeth sy'n atebol i'r Bwrdd Gweithredol am sicrhau y caiff gwersi eu dysgu er mwyn atal digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

- 195 Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o nifer y digwyddiadau diogelu gwybodaeth yn 2017-2018, gyda ffigurau 2016-2017 yn cael eu dangos er mwyn eu cymharu.

Digwyddiadau diogelu gwybodaeth	2017–2018	2016-2017
Critigol	0	0
Mawr	6	4
Cymedrol	36	36
Bach	73	63
Dibwys	9	11
<b>Cyfanswm</b>	<b>124</b>	<b>114</b>

- 196 O'r 124 o ddigwyddiadau, roedd 63 yn achosion o ddatgelu data personol (2016-2017: 51). O'r chwe digwyddiad mawr yn 2017-2018, roedd dau yn achosion o ddatgelu data personol. Cafodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wybod am un o'r digwyddiadau hyn. Ni chafodd wybod am y digwyddiad arall am nad oeddem o'r farn bod y risg i unigolion o ganlyniad iddo yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwneud hynny. Roedd y pedwar digwyddiad mawr arall yn ymwneud â chywirdeb data.
- 197 Yn ystod 2017-2018, gwnaethom barhau i gysoni'r gwaith o reoli diogelwch gwybodaeth ag ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer diogelu gwybodaeth. Diweddarwyd ein polisiau a'n prosesau o ran rheoli achosion o ddatgelu data er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion GDPR o fis Mai 2018.

## Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth

- 198 Ni chafwyd unrhyw achosion o dwyll, llwgrwobrwyo na llygredigaeth yn ystod 2016-2017: un). Fodd bynnag, nid ydym am laesu dwylo yn hyn o beth. Mae hyfforddiant gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo yn parhau i fod yn orfodol i bob newydd-ddyfodiaid a chynhelir hyfforddiant gloywi bob yn ail flwyddyn.
- 199 Yn ystod 2017-2018, cynhaliwyd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ychwanegol drwy ohebiaeth fewnol a gynlluniwyd i ymgorffori a chynnal ymwybyddiaeth o'n polisi gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth a'r angen i gydymffurfio ag ef. Mae polisi Rhoddion a Lletygarwch ar waith ar gyfer aelodau'r Cyngor, aelodau partner a staff sy'n cefnogi arfer da yn y maes hwn.

## Caethwasiaeth fodern

- 200 Cydnabuwn bwysigrwydd ein rôl yn y gwaith o weithredu canllawiau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Rydym wedi cynnal asesiad risg cychwynnol o'n prosesau yn fewnol ac yn rhyngwladol yn ystod 2017-2018 er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu polisi dim goddefgarwch o ran caethwasiaeth a masnachu pobl. Mae ein datganiad caethwasiaeth fodern wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan a chaiff ei adolygu'n barhaus gan y Bwrdd Gweithredol.

## **Materion a risgiau allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn**

201 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor a'r Tîm Gweithredol wedi cymryd camau i fynd i'r afael â risgiau a gwendidau mewn rheolaethau mewn meysydd allweddol fel y nodir isod, yn ychwanegol at y gwaith o ailflaenoriaethu'r rhaglen drawsnewid a drafodwyd yn gynharach.

### **Gallu ac adnoddau staff**

202 Yn ystod 2017-2018 gwnaethom gydnabod y gallai ein gallu ac adnoddau beri risg o ran cyflawni ein hymrwymadau corfforaethol. Mewn ymateb, gwnaethom ailflaenoriaethu ein rhaglen drawsnewid ac atgyfnerthu ein Bwrdd Gweithredol, gyda chyfarwyddiaethau newydd yn cael eu sefydlu ar gyfer Pobl a Datblygu Sefydliadol a Materion Allanol.

203 Rydym yn parhau i ddadansoddi ein bylchau recriwtio a chadw er mwyn deall unrhyw bwysau sy'n bodoli a llunio ymateb wedi'i dargedu. Bydd gwaith yn parhau yn 2018-2019 i adolygu ein cynlluniau denu ac ymgysylltu fel y gallwn wella ein harlwy a chreu gweithlu mwy sefydlog.

### **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

204 Nodwyd risgiau sylweddol ar draws y portffolio TGCh, gan gynnwys y rheini'n deillio o raglenni etifeddol, seiber-risg a diogelwch gwybodaeth. Arweiniodd un digwyddiad seiberddiogelwch lle cafwyd achos o fynediad heb awdurdod (hacio) i systemau ffôn at golled ariannol bach. Yn sgil y gwersi a'r camau lliniaru a nodwyd oherwydd hyn, a risgiau eraill, cyflwynwyd amrywiaeth o newidiadau gan gynnwys gwell polisiau, archwiliadau o gydymffurfiaeth, prosesau uwchgyfeirio a rheoli digwyddiadau newydd, a buddsoddiadau mewn seilwaith newydd, uwchraddio rhaglenni, a gwella ein diogelwch.

205 Yn ystod 2017-2018, profwyd amrywiaeth o broblemau technegol ac amharu ar y gwasanaeth mewn perthynas â WISER, sef y system lle lleolir ein cofrestr. Cyflwynwyd rhaglen rheoli risg gynhwysfawr gan gynnwys proses dilysu data ddyddiol a phrosesau newydd ar gyfer rheoli achosion o amharu ar y gwasanaeth sy'n ymwneud â TG ar draws gwasanaethau neu lwyfannau TG cysylltiedig. Bydd ein rhaglen strategol o fuddsoddi mewn TG yn lleihau'r risgiau gweithredol a'r risgiau o ran perfformiad yn sylweddol yn y dyfodol.

### **Y system gaffael a chontractau**

206 Rydym wedi parhau i atgyfnerthu ein rheolaethau caffael yn unol ag argymhellion nifer o adolygiadau archwilio mewnol ac allanol. Rydym wedi gwella'r lefel o wybodaeth sydd gennym am gontractau a pherfformiad contractau, yn arbennig drwy weithredu pecyn meddalwedd E-gaffael newydd.

207 Bu'r gwaith o wella gallu ac adnoddau caffael yn arafach na'r disgwyl ond, erbyn chwarter olaf 2017-2018, roedd gan yr adran dîm sylweddol wedi'i gefnogi gan

arbenigedd caffael allanol. Mae angen i'r sefydliad wella ei ymwybyddiaeth fasnachol ymhellach.

## **Cyllid**

- 208 Mae adolygiadau archwilio mewnol o'r gyflogres, rheolaethau ariannol allweddol a rheolaethau cyllidebol wedi dangos gwelliannau yn yr holl feysydd hyn. Tanlinellodd problemau rheoli costau y ffaith bod angen gwella'r broses o ddarogan gweithgarwch sy'n arwain at wariant a gwella cywirdeb hynny. Mae'r gwelliannau a wnaed i systemau cadw cofnodion er mwyn olrhain ymrwymadau gwario wedi gwella'r broses ddarogan. Bwriedir gwneud rhagor o waith i wella'r broses o ddarogan gweithgarwch a'r gwariant sy'n deillio o hynny yn 2018-2019.

## **Y Gweithlu a'n Cofrestr**

- 209 Yn ystod y flwyddyn gwelsom y Gofrestr yn lleihau ychydig, a byddwn yn parhau i fonitro hynny'n ofalus. Mae'r lleihad hwn yn ymwneud â'r ffaith bod mwy o nyrsys a bydragedd yn gadael y gofrestr a bod llai yn ymuno â hi. Mae i hyn effaith ariannol, gan fod ein hincwm yn dibynnu ar ffioedd cofrestru. Rydym wedi addasu ein cynlluniau ariannol yn briodol ac yn parhau i fonitro'r sefyllfa o ran y gofrestr yn agos. Byddwn yn parhau i geisio gwybodaeth gan gyflogwyr a'r pedair llywodraeth er mwyn deall yn well gynlluniau'r gweithlu sy'n datblygu, fel y gallwn ddarogan y sefyllfa'n briodol.
- 210 Cydnabuw'n oblygiadau ehangach hyn i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu ein data â'r pedair llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol er mwyn helpu i lywio eu gwaith a byddwn yn parhau i wneud hynny.

## **Gweithio gydag eraill er mwyn mynd i'r afael â risgiau a rennir**

- 211 Fel y nodir uchod, rydym yn cyfrannu at y gwaith parhaus sy'n mynd rhagddo i ymdrin â materion o ran y gweithlu sy'n effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
- 212 Rydym hefyd yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i reoleiddwyr y system gofal iechyd ledled y DU er mwyn eu helpu i fynd i'r afael â risgiau i ddiogelwch y cyhoedd. Pan nodwn risgiau penodol i ddiogelwch y cyhoedd nad ydynt yn dod o dan ein cylch gwaith, rhannwn y wybodaeth berthnasol â rheoleiddwyr a chyrrff statudol eraill; yn 2017-2018 gwnaethom rannu gwybodaeth 233 o weithiau. Mae'r wybodaeth a rannwyd yn ymwneud yn bennaf â gofal gwael a diogelwch cleifion mewn perthynas â systemau iechyd ehangach; gweithgarwch troseddol difrifol neu niwed i gleifion a all arwain at atal unigolion rhag gweithio gyda grwpiau penodol o bobl. Gwnaethom hefyd rannu gwybodaeth lle cafwyd pryderon rheoleiddiol yn ymwneud â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel meddygon neu barafeddygon. Ynghyd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, rydym wedi datblygu protocol ar y cyd ar gyfer uwchgyfeirio a rhannu gwybodaeth am risgiau rheoleiddiol.



## **Barn flynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017-2018**

213 Cynhaliwyd naw aseiniad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio. Derbyniwyd a gweithredwyd pob un o argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol neu eir i'r afael â nhw, gyda'r broses o'u gweithredu yn cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Archwilio. Gwnaeth y gwasanaeth archwilio mewnol hefyd adolygu'r broses o weithredu argymhellion blaenorol. Hefyd, cynhaliwyd adolygiadau cynghorol gan edrych ar brosesau i gofnodi cronïadau'n gywir ac ymdrin â digwyddiad technoleg gwybodaeth.

214 Barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

*“Mae rhywfaint o risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn. Mae angen gwneud gwelliannau yn y meysydd hyn er mwyn gwella digonolrwydd a / neu effeithiolrwydd systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.”*

215 Yr heriau allweddol a danlinellwyd ar gyfer y dyfodol oedd: natur fregus gynhenid rhywfaint o'n seilwaith TG; cyflawni'r cynllun gwella ym maes caffael; gwella'r broses o reoli contractau; yr angen i wella rheolaethau craidd adnoddau dynol; a sicrhau bod ein gwelliannau i'r broses o reoli costau yn cael eu hymgorffori.

216 Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae gweithrediad llawn ac amserol ei argymhellion yn dangos bod y rheolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i wella. Mae gwaith yn parhau i wella'r amgylchedd a'r fframweithiau risg a rheolaeth sy'n effeithio ar feysydd allweddol o weithgarwch. Fodd bynnag, mae llawer o welliannau yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth a bydd gwaith yn parhau yn 2018-2018.

## **Materion a risgiau allweddol yn y dyfodol**

217 Ffocws pwysig yn y flwyddyn i ddod fydd mynd i'r afael ag argymhellion Gwersi a Ddysgwyd PSA mewn perthynas â'r ffordd rydym yn trin pobl sy'n dod i gysylltiad â ni; ymarfer tryloyw a diwylliant agored sy'n dysgu. Byddwn yn cymryd camau penodol ac yn ymgorffori egwyddorion yr argymhellion yn y rhaglenni gwaith pwysig sydd wedi'u cynnwys fel blaenoriaethau yn ein cynllun corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, ystyried y gwersi wrth i ni ddatblygu ein safonau hyfedredd newydd ar gyfer bydwragedd y dyfodol ac wrth i ni ddatblygu a gweithredu ein dull strategol newydd o ymdrin ag addasrwydd i ymarfer.

218 Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad trylwyr o'n blaenoriaethau corfforaethol a'n risgiau sefydliadol yn sgil newidiadau ar lefel uwch arwain, gan gynnwys ymadawiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Rhoddwyd trefniadau pontio cadarn ar waith er mwyn sicrhau parhad ac y cymerir camau pragmataidd, realistig, gan gynnwys oedi neu ohirio prosiectau a rhaglenni nad ydynt yn hanfodol i fusnes, fel sy'n briodol, er mwyn rheoli risg a chyflawni ein blaenoriaethau allweddol.

219 Ymhlith y meysydd a rhaglenni gwaith a all beri problemau a risgiau yn y dyfodol, yr eir i'r afael â nhw yn ystod y flwyddyn mae:

- 219.1 Gweithredu'r safonau, prosesau a systemau i ddechrau rheoleiddio proffesiwn newydd, sef cymdeithion nyrsio, erbyn dechrau 2019 fel sy'n ofynnol gan y Llywodraeth.
- 219.2 Goblygiadau gadael yr UE i reoleiddio gofal iechyd a'r NMC. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa a cheisio eglurder gan gyflogwyr a'r llywodraeth.
- 219.3 Parhau i feithrin gallu, adnoddau a gwydnwch drwy weithredu ein Strategaeth Pobl er mwyn cefnogi, herio a datblygu ein staff ar gyfer y dyfodol.
- 219.4 Cychwyn rhaglen i foderneiddio ein seilwaith a'n systemau TG, gan ddechrau drwy ddisodli'r dechnoleg sy'n cefnogi'r Gofrestr. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth TG newydd ac wedi cytuno ar gynig buddsoddi strategol cychwynnol er mwyn datblygu'r gwaith hwn.
- 219.5 Ailgyllunio'r swyddogaeth gaffael a chyflwyno amrywiaeth o newidiadau i brosesau ac atebion technolegol.
- 219.6 Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018. Mae gennym gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â meysydd sydd angen sylw penodol, fel cadw gwybodaeth hanesyddol.
- 220 Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Bwriadwn atgyfnerthu'r fframwaith rheoli mewnol gyda ffocws penodol ar gyllid; caffael a rheoli contractau; ac ymdrin â data. Byddwn yn parhau i reoli a monitro perfformiad ein systemau TG presennol wrth ddechrau cyflwyno atebion i'w disodli.
- 221 Byddwn yn monitro'n agos ein gallu ac adnoddau i gyflawni ein rhaglenni newid mawr gan barhau i gyrraedd safonau ansawdd i'r rheini sydd ar ein cofrestr.

## **Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd**

- 222 Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu Interim, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol.
- 223 Fel rhan o broses trosglwyddo sicrwydd gynhwysfawr, cawsom ddatganiad sicrwydd gan y Swyddog Cyfrifyddu oedd yn gadael yn cadarnhau bod yr asesiad isod yn ddarlun gwir a chywir o sefyllfa'r NMC. Cafodd y datganiad ei ategu gan amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys barn ac adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, asesiadau cyfarwyddwyr o ansawdd rheolaethau a sicrwydd sydd ar waith yn y cyfarwyddiaethau y maent yn gyfrifol amdanynt; ac adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg. Rydym hefyd wedi dibynnu ar Farn a Llythyr Rheoli ein harchwilwyr allanol; ac Adroddiad Cwblhau Archwiliad a Llythyr Rheoli'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn ag effeithiolrwydd ein trefniadau.

224 Yn gyffredinol, rydym yn ystyried bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth boddhaol ar waith ar y cyfan. Cydnabyddwn yr angen i barhau i fynd i'r afael â'r amgylchedd risg a rheolaeth a'i atgyfnerthu yn y meysydd allweddol a nodwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, sef cyllid, caffael a rheoli contractau, adnoddau dynol a TG. Bydd sicrhau bod gwelliannau yn cael eu hymgorffori a'u cynnal yn ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Philip Graf**  
**Cadeirydd, NMC**

**16 Hydref 2018**

**Sue Killen**  
**Prif Weithredwr Interim a Chofrestrydd,**  
**NMC**

**16 Hydref 2018**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu o bwys. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon* (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o'r Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban). Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu ymddiriedolwyr yr elusen o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yn adroddiad yr Archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2018 a'r symiadau net yn ei chronfeydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006.

## Sail y farn

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n weithredol oddi tanynt. Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol

eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn cynnig sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

### **Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr (Cyngor) am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, a'r fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i fod yn fusnes gweithredol, gan ddatgelu, lle y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol onid yw'r ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

### **Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Rydym yn anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

### **Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, lle mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt lle:

- nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r elusen i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

## **Gwybodaeth arall**

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chynllun Strategol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw sicrwydd ar y wybodaeth honno.

O ran ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, rydym yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennym wrth gynnal yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os nodwn y fath anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni bennu p'un a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu p'un a yw'r wybodaeth arall wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaed gennym, fod camddatganiad perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny. Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## **Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes dim gennym i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os credwn fod y canlynol yn wir:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol gan yr elusen, neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer ein h archwiliad oddi wrth ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol a phriodol; neu
- nid yw datganiadau ariannol yr elusen yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

**haysmacintyre**  
Statutory Auditors

10 Queen Street Place  
London  
EC4R 1AG

16 Hydref 2018

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol â thelerau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiâu cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig). Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2018 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Gorchymyn Nyrso a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Arfer 10 'Audit of Financial Statements of Public Sector Entities in the United Kingdom'. Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn cynnig sail ddigonol a phriodol i lunio barn.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ynghylch y cyfrifon, y Cyngor a'r Prif Weithredwr a

Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

## **Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwy'n arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- nodi ac asesu'r risgiau o gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall, yn cynllunio ac yn cyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn. Mae'r risg o beidio â nodi camddatganiad perthnasol yn deillio o dwyll yn uwch nag un sy'n deillio o wall, oherwydd gall twyll gynnwys cynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camgynrychiolaeth, neu anwybyddu rheolaeth fewnol.
- meithrin dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- gwerthuso priodoleb y polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau cysylltiedig a wneir gan y rheolwyr.
- casglu, ar sail priodoldeb defnydd y rheolwyr o sail gyfrifyddu busnes gweithredol a'r dystiolaeth archwilio a gafwyd, p'un a oes ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i barhau fel busnes gweithredol. Os dof i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw, yn fy adroddiad archwilydd, at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os nad ydynt yn ddigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a geir hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu nad yw'r endid yn parhau fel busnes gweithredol.



- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r prif drafodion a digwyddiadau mewn ffordd deg.

Rwy'n cyfathrebu â'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio pwysig, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### **Gwybodaeth arall**

Y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. O ran fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, rwy'n gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaed gennyf, fod camddatganiad perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

### **Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;
- yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'i amgylchedd a gafodd eu meithrin yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol y rhown farn cysondeb gadarnhaol arno ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### **Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**

**Dyddiad:** 22 Hydref 2018

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

National Audit Office

157-197 Buckingham Palace Road

Victoria

London

SW1W 9SP

## Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

		Cronfeydd digyfyngiad 2017-18	Cronfeydd cyfyngedig 2017-18	Cyfanswm 2017-18	2016-17
	Nodyn	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Incwm o:</b>					
Gweithgareddau elusennol:					
Ffioedd	2	84,257	-	84,257	84,988
Buddsoddiadau	3	258	-	258	586
Incwm arall	3	3,454	-	3,454	581
<b>Cyfanswm</b>		<b>87,969</b>	<b>-</b>	<b>87,969</b>	<b>86,155</b>
<b>Gwariant ar:</b>					
Gweithgareddau elusennol	4,5	(87,890)	-	(87,890)	(86,646)
<b>Cyfanswm</b>		<b>(87,890)</b>	<b>-</b>	<b>(87,890)</b>	<b>(86,646)</b>
<b>Incwm/(gwariant) net</b>		<b>79</b>	<b>-</b>	<b>79</b>	<b>(491)</b>
<b>Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill</b>					
Enillion/(colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig	21	(67)	-	(67)	553
<b>Symudiad net mewn cronfeydd</b>		<b>12</b>	<b>-</b>	<b>12</b>	<b>62</b>
<b>Cysoni cronfeydd:</b>					
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen	24	41,175	-	41,175	41,113
<b>Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen</b>		<b>41,187</b>	<b>-</b>	<b>41,187</b>	<b>41,175</b>

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Y Fantolen ar 31 Mawrth 2018

		2017-18	2016-17
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Asedau sefydlog</b>			
Diriaethol	13	<u>18,932</u>	<u>21,745</u>
<b>Cyfanswm asedau sefydlog</b>		<u>18,932</u>	<u>21,745</u>
<b>Asedau cyfredol</b>			
Dyledwyr	15	4,083	3,919
Buddsoddiadau		65,511	59,653
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		<u>16,665</u>	<u>22,597</u>
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>		<b>86,259</b>	86,169
<b>Rhwymedigaethau</b>			
Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	(50,380)	(52,965)
Darpariaethau: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	17	<u>(483)</u>	<u>(76)</u>
<b>Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol</b>		<u>(50,863)</u>	<u>(53,041)</u>
<b>Asedau cyfredol net</b>		<b>35,396</b>	33,128
<b>Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>54,328</b>	54,873
<b>Credydwyr:</b> Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	18	(485)	(611)
<b>Darpariaethau:</b> Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	19	<u>(956)</u>	<u>(899)</u>
<b>Asedau net heb gynnwys rhwymedigaeth pensiwn</b>		<u>52,887</u>	<u>53,363</u>
<b>Rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig</b>	21	<u>(11,700)</u>	<u>(12,188)</u>
<b>Cyfanswm asedau net</b>	25	<u>41,187</u>	<u>41,175</u>
<b>Cronfeydd yr NMC</b>			
<b>Cronfeydd incwm cyfyngedig</b>		-	-
<b>Cronfeydd digyfngiad</b>	24	<u>41,187</u>	<u>41,175</u>
<b>Cyfanswm y cronfeydd</b>		<u>41,187</u>	<u>41,175</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

	Nodyn	2017-18		2016-17	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu</b>					
<b>Arian parod net a ddarparwyd/(a ddefnyddiwyd mewn) gan weithgareddau gweithredu</b>			<b>155</b>		<b>(716)</b>
<b>Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi</b>					
Elw ar aeddfedrwydd buddsoddiadau		-		62,100	
Llog o fuddsoddiadau	3	<b>258</b>		586	
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	13	<b>(487)</b>		(2,329)	
<b>Arian parod net (a ddefnyddiwyd mewn)/a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi</b>			<b>(229)</b>		<b>60,357</b>
<b>Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y cyfnod adrodd</b>			<b>(74)</b>		<b>59,641</b>
<b>Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn</b>			<b>82,250</b>		<b>22,609</b>
<b>Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn</b>			<b>82,176</b>		<b>82,250</b>

## Cysoni incwm net/(gwarant) â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	<b>2017-18</b>	2016-17
	<b>£'000</b>	£'000
Incwm net/(gwarant) o'r cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol)	<b>79</b>	(491)
Llog o fuddsoddiadau	<b>(258)</b>	(586)
Taliadau dibrisio	<b>3,300</b>	3,692
Colled ar waredu cyfarpar	-	92
Gostyngiad/cynnydd) mewn dyledwyr	<b>(164)</b>	(345)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau	<b>(2,247)</b>	(3,195)
Symudiadau mewn pensiynau	<b>(555)</b>	117
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	<b>155</b>	(716)

## Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	2017-18	2016-17
	£'000	£'000
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	16,665	22,597
Buddsoddiadau (adneuon byrdymor)	65,511	59,653
Cyfanswm	<u>82,176</u>	<u>82,250</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 62 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Ar 31 Mawrth 2018, mae'r holl fuddsoddiadau yn rhai byr-dymor ag aeddfedrwydd o dri mis neu lai ac felly cânt eu dosbarthu fel yr hyn sy'n cyfateb i arian parod.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Polisiau cyfrifyddu

Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Penderfyniad ynglŷn â'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Ymarfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (yn effeithiol 1 Ionawr 2015) - (SORP Elusennau FRS102) a bod y cyfrifon wedi rhoi sylw i ofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion SORP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

Mae'r NMC yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS102.

### Busnes gweithredol

Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r NMC i barhau fel busnes gweithredol.

Nod yr NMC yw diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwagedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Cyngor wedi adolygu amgylchiadau'r NMC ac o'r farn bod digon o adnoddau yn parhau i fod ar gael i ariannu ei weithgareddau yn y dyfodol agos. Ym marn y Cyngor, mae'r NMC yn fusnes gweithredol.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Paratwir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd i gynnwys ailbrisiu rhai asedau sefydlog. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau ar sail cost hanesyddol neu werth trafodyn oni nodir fel arall ar y nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

### b) Dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu hyn, mae'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybjaethau ynghylch gwerth cario asedau a rhwymedigaethau nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Caiff amcangyfrifon a dyfarniadau eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ran digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth orau'r rheolwyr am y swm, digwyddiadau neu weithredoedd, gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn yn y pen draw. Caiff diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo os mai dim ond effeithio ar y cyfnod hwnnw a



wna'r diwygiad, neu yng nghyfnod y diwygiad a chyfnodau yn y dyfodol os yw'r diwygiad yn cael effaith heddiw ac yfory. Mae Aelodau'r Cyngor o'r farn bod yr eitemau canlynol yn feysydd i'w hamcangyfrif a dyfarnu arnynt.

### **Dibrisiant**

Mae bywydau economaidd defnyddiol asedau sefydlog diriaethol yn seiliedig ar ddyfarniad a phrofiad rheolwyr. Pan fydd y rheolwyr yn nodi bod bywydau economaidd defnyddiol yn wahanol i'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i gyfrifo dibrisiant, a hynny'n berthnasol, addasir y taliad hwnnw'n ôl-weithredol. Er bod asedau sefydlog diriaethol yn arwyddocaol, ni fydd amrywiadau rhwng bywydau economaidd defnyddiol gwirioneddol ac amcangyfrifedig yn cael effaith berthnasol ar y canlyniadau gweithredu. Yn hanesyddol, ni fu angen gwneud unrhyw newidiadau.

### **Pensiynau**

Y prif dybiaethau a ddefnyddir i gyfrifo'r rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yw'r rhai a nodir yn nodyn 21.

Mae'r polisiau cyfrifyddu canlynol wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol o ran datganiadau ariannol yr Elusen.

### **c) Incwm**

Cydnabyddir pob incwm unwaith y bydd gan yr NMC hawl iddo, mae'n debygol y derbynnir yr incwm a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

#### **Incwm buddsoddiadau**

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy. Datgelir incwm buddsoddiadau mewn perthynas â grantiau a gafwyd fel incwm buddsoddiadau cyfyngedig.

#### **Incwm o weithgareddau elusennol**

Mae a wnelo ffioedd cofrestru ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol. Daw ffioedd cofrestru i law bob blwyddyn a phob chwarter ond fe'u credydir i incwm yn fisol. Felly, fe'u dyrannwyd i'r flwyddyn ariannol briodol yn seiliedig ar y cysyniad o groniadau, gan arwain at incwm gohiriedig. Credydwyd ffioedd cofrestru a dilysu eraill, fel ffioedd gwneud cais untro, i'r incwm ar y diwrnod derbyn.

#### **Incwm grant**

Cydnabyddir incwm grant pan fydd gan yr NMC dystiolaeth o hawl iddo, ei bod yn debygol y'i derbynnir ac y gellir mesur yr incwm yn ddibynadwy. Caiff incwm grant ei gydnabod mewn cronfeydd cyfyngedig pan fydd y dyrannwr grant yn nodi bod yn rhaid i'r incwm gael ei ddefnyddio at ddiben penodol.

## **ch) Gwariant**

Cydnabyddir rhwymedigaethau fel gwariant cyn gynted ag y bo rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw, ei bod yn debygol y bydd angen setliad ac y gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau gan yr eir i rwymedigaeth, yn cynnwys TAW (na ellir ei hadennill yn y rhan fwyaf o achosion).

Mae costau gweithredu'r NMC yn cynnwys costau staff, costau llywodraethu, costau eiddo a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath i gategoriâu o wariant elusennol uniongyrchol. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau eiddo yn unol â defnydd a niferoedd staff ym mhob adran a dosrennir costau TGCh a chostau eraill i adrannau ar sail briodol (er enghraifft, niferoedd staff). Dyrennir treuliau Lefi Prentisiaethau i 'nawdd cymdeithasol a threthi eraill' wrth i'r lefi ddod yn ddyledus.

## **Gweithgareddau elusennol**

Ymhlith y gwariant ar weithgareddau elusennol mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r elusen sy'n cynnwys: hyrwyddo safonau a datblygu polisiau, addysg, cynnal y gofrestr, addasrwydd i ymarfer a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gweler nodyn 4.

Dyrennir gwariant i'r gweithgaredd penodol pan fo'r gost yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd hwnnw. Fodd bynnag, mae cost cyfeiriad cyffredinol a gweinyddiaeth pob gweithgaredd, yn cynnwys y cyflog a gorbenion y swyddogaeth ganolog, yn cael ei dyrannu yn seiliedig ar y nifer sy'n cymryd rhan ymhob gweithgaredd fel costau cymorth. Dyrannwyd costau cymorth rhwng Costau Llywodraethu a Chostau Cymorth Eraill.

## **d) Costau datblygu**

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

## **dd) Cyfrifyddu cronfeydd**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

### **i) Cronfeydd cyfyngedig:**

Mae'r rhain yn gronfeydd a ddefnyddir yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan ddyrannwyr grant. Amlinellir nod pob cronfa gyfyngedig a'r defnydd a wneir ohoni yn nodyn 24 i'r datganiadau ariannol.

### **ii) Cronfeydd digyfyngiad:**

Mae'r cronfeydd hyn ar gael i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion cyffredinol y sefydliad ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

## e) Asedau ar brydles

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesau gweithredol, lle mae holl fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn perthyn i'r prydleswr i raddau helaeth, i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

## f) Buddiannau cyflogeion

### Buddiannau byrdymor

Caiff buddiannau byrdymor gan gynnwys tâl gwyliau eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y derbyniwyd y gwasanaeth ynddo.

### Buddiannau terfynu cyflogai

Rhoddir cyfrif am fuddiannau terfynu ar sail croniadau.

### Costau pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy gynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Ariennir y ddau gynllun drwy gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân i'r NMC yn ariannol.

Gwneir taliadau i'r cynllun buddiannau diffiniedig yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol, a chyfrifir am gostau pensiwn y cynllun buddiannau diffiniedig ar sail codi cost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r NMC yn cael budd o wasanaeth y cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

Gwneir taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail cyfraniadau canrannol penodedig gan yr NMC a chyflogeion, a chodir y costau i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

## ff) Asedau sefydlog

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

Cyfarpar	3-5 mlynedd
Dodrefn	10 mlynedd
Prosiectau TG	3-5 mlynedd
Ailwampio – 23 Portland Place	10 mlynedd
Safle Lesddaliad Hir – 23 Portland Place <sup>11</sup>	50 mlynedd

Caiff asedau'n ymwneud â'r eiddo lesddaliad canlynol eu dibrisio dros oes y les:

<sup>11</sup> Gweler Nodyn 13.1

61 Aldwych	10 mlynedd
Clarendon House – Llawr Gwaelod	10 mlynedd
Clarendon House – Llawr Cyntaf	2 flynedd
1 Kemble Street	8.5 mlynedd
2 Stratford Place	9.7 mlynedd

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £5,000.

Ailbrisiodd yr NMC 23 Portland Place yn ystod 2013-2014 ac yn unol ag FRS102 bydd yn defnyddio'r prisiad hwn fel y gost dybiedig wrth fynd ymlaen.

### **g) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnach a dyledwyr eraill ar y swm setlo sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Pennir gwerth rhagdaliadau ar y swm a ragdalwyd ar ôl unrhyw ddisgownt masnach dyledus.

### **ng) Arian parod yn y banc ac mewn llaw**

Mae arian parod yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau hylif iawn byrdymor sydd ag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif adnau neu gyfrif tebyg.

### **h) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau lle mae gan yr elusen rwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd fwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti a gellir mesur y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar eu swm setlo ar ôl cyfrif am unrhyw ddisgownt masnach sy'n ddyledus.

### **i) Offerynnau ariannol**

Dim ond asedau a rhwymedigaethau ariannol a ystyrir yn offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr NMC. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau ar eu gwerth trafodyn ac yna fe'u mesurir ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Mae asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys balansau arian parod, adneuron byrdymor, masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys credydwyr masnach, credydwyr eraill a chroniadau.

## 2. Incwm ffioedd

	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Ffioedd cofrestru	82,807	83,079
Ffioedd eraill	1,450	1,909
Cyfanswm	<u>84,257</u>	<u>84,988</u>

## 3. Buddsoddiadau ac incwm arall

	Cronfeydd £'000	Cyfyngedi g £'000	Cyfansw m n 2017-18 £'000	Cyfansw m 2016-17 £'000
Llog o adneuron banc	258	-	258	586
Incwm arall	3,454	-	3,454	581
Cyfanswm	<u>3,712</u>	<u>-</u>	<u>3,712</u>	<u>1,167</u>

Mae incwm arall yn cynnwys ad-daliad gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am waith a wnaed gan yr NMC ar gymdeithion nyrsio.

## 4. Gweithgareddau elusennol

	Cronfeydd £'000	Cyfyngedi g £'000	Cyfansw m 2017-18 £'000	Cyfansw m 2016-17 £'000
Hyrwyddo safonau a datblygu polisiau	4,384	-	4,384	2,921
Addysg	3,711	-	3,711	3,445
Cynnal y gofrestr	11,204	-	11,204	11,423
Addasrwydd i ymarfer	66,151	-	66,151	66,451
Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	2,440	-	2,440	2,406
Cyfanswm	<u>87,890</u>	<u>-</u>	<u>87,890</u>	<u>86,646</u>

Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol,<sup>12</sup> costau staff a gorbenion cysylltiedig.

<sup>12</sup> Gweler Nodyn 5.

## 5. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

	Costau staff	Dibrisiant	Costau eraill	Cyfansw m 2017-18	Cyfansw m 2016-17
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gweithgareddau elusennol:</b>					
Hyrwyddo safonau a datblygu polisiau	1,995	70	2,319	<b>4,384</b>	2,921
Addysg	1,810	109	1,792	<b>3,711</b>	3,445
Cynnal y gofrestr	7,528	682	2,994	<b>11,204</b>	11,423
Addasrwydd i ymarfer	30,437	2,316	33,398	<b>66,151</b>	66,451
Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	1,608	123	709	<b>2,440</b>	2,406
Cyfanswm	<u>43,378</u>	<u>3,300</u>	<u>41,212</u>	<u><b>87,890</b></u>	<u>86,646</u>

Mae costau staff yn cynnwys cyflogau o £40,489,000 (Gweler Nodyn 10)

## 6. Dadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

	Gweithgareddau a gyflawnwyd yn uniongyrchol	Costau cymorth	Cyfansw m 2017-18	Cyfansw m 2016-17
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gweithgareddau elusennol:</b>				
Hyrwyddo safonau a datblygu polisiau	3,815	569	<b>4,384</b>	2,921
Addysg	2,817	894	<b>3,711</b>	3,445
Cynnal y gofrestr	5,639	5,565	<b>11,204</b>	11,423
Addasrwydd i ymarfer	47,244	18,907	<b>66,151</b>	66,451
Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	1,437	1,003	<b>2,440</b>	2,406
Cyfanswm	<u>60,952</u>	<u>26,938</u>	<u><b>87,890</b></u>	<u>86,646</u>

## 7. Costau llywodraethu wedi'u cynnwys o fewn costau cymorth

Y dadansoddiad o gostau llywodraethu yw:

	2017-18	Ailddatganwyd 2016-17 <sup>13</sup>
	£'000	£'000
Lwfansau, yswiriant gwladol, costau teithio a chynhaliadaeth aelodau	<b>366</b>	275
Cydnabyddiaeth archwilwyr haysmacintyre	<b>21</b>	20

<sup>13</sup> Gweler Nodyn 26.

Cydnabyddiaeth archwilwyr NAO	<b>6</b>	6
Ffioedd proffesiynol (gan gynnwys ffi flynyddol PSA)	<b>1,762</b>	1,745
Costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)	<b>1,892</b>	2,000
Cyfanswm	<b><u>4,047</u></b>	<u>4,046</u>

## 8. Dadansoddi costau cymorth

Cost cymorth <sup>14</sup>	Hyrwyddo safonau a datblygu polisiau	Addysg	Cynnal y gofrestr	Addasrwydd i ymarfer	Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd	Cyfanswm 2017-18	Cyfanswm 2016-17
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfleusterau	52	82	508	1,726	92	<b>2,460</b>	2,298
Cyllid a chaffael	61	95	592	2,014	107	<b>2,869</b>	2,321
Adnoddau Dynol	59	92	573	1,946	103	<b>2,773</b>	2,448
TGCh	209	328	2,044	6,943	368	<b>9,892</b>	12,645
Llywodraethu	85	134	836	2,841	151	<b>4,047</b>	4,046
Rheoli a gweinyddu	103	163	1,011	3,437	183	<b>4,897</b>	5,751
Cyfanswm	<u>569</u>	<u>894</u>	<u>5,564</u>	<u>18,907</u>	<u>1,004</u>	<b><u>26,938</u></b>	<u>29,508</u>

<sup>14</sup> Sail y dyraniad yw nifer y staff.



## 9. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn ôl categori cost

	2017-18	2016-17	Manylion n (gweler isod)
	£'000	£'000	
Cyflogau a chostau cysylltiedig	40,489	38,156	9.1
Costau gwrandawiadau	22,144	21,136	9.2
Ffioedd proffesiynol	8,823	8,986	
Safleoedd	4,646	4,644	
Dibrisiant	3,300	3,692	
Datblygu TG a chymorth TG	2,417	3,665	9.3
Costau staff eraill	1,325	1,115	
Sicrhau ansawdd addysg	1,014	1,077	
Costau cymorth eraill	617	686	
Recriwtio	466	652	
Apeliadau cofrestru	435	376	
Lwfansau, YG, costau teithio a chynhaliaeth aelodau	366	275	
Tâl postio	284	323	
Dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw	201	79	
Argraffu a phostio cyhoeddiadau'r NMC	192	139	
Ffreutur y staff	188	278	
Yswiriant <sup>15</sup>	172	183	
Cost argraffu a deunydd ysgrifennu	170	215	
Dadfeiliadau	121	275	
Costau pwyllgorau	103	36	
Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd	50	63	
Cydnabyddiaeth archwilwyr haysmacintyre	21	20	
Cydnabyddiaeth archwilwyr NAO	6	6	
Colled ar waredu cyfarpar	-	92	
Taliadau cyllid	340	477	
<b>Cyfanswm</b>	<b>87,890</b>	<b>86,646</b>	

## Manylion ychwanegol ar gyfer y tabl yn nodyn 9

### 9.1 Cyflogau a chostau cysylltiedig

Manylir ar y costau hyn yn Nodyn 10 i'r cyfrifon.

Mae costau cyflogau staff wedi cynyddu yn 2017-2018 o ganlyniad i gynnydd yn nifer y staff a gyflogir, lefelau cyflog a dyrchafiadau o gymharu â 2016-2017.

Cymeradwyodd yr NMC godiad cyflog o 2 y cant ar gyfer staff cymwys yn weithredol o 1 Ebrill 2017 (1 Ebrill 2016: rhwng 1.5 a 3 y cant). Cafodd cynnydd arall ei gymeradwyo

<sup>15</sup> Yn cynnwys yswiriant indemniad ymddiriedolwyr.

yn targedu cyflogeion ar gyflogau is fel bod staff yn agosach at y lefel cyflog ganolrif os oeddent islaw hyn yn dilyn y codiad cyflog.

Lleihaodd costau staff dros dro a chontractwyr £0.650 miliwn. Deilliodd hyn o'r ffaith bod llai o angen adnoddau arbenigol i gefnogi prosiectau rheoleiddio penodol, gan gynnwys taliadau cofrestru chwarterol, a chynllunio trawsnewid.

## **9.2 Costau gwrandawiadau**

Bu'r cynnydd mewn costau ar gyfer gwrandawiadau yn bennaf oherwydd y newid wrth gydnabod cost ymchwiliadau cyfreithiol allanol yn 2017-2018 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bellach, caiff costau llawn ymchwiliadau eu cydnabod pan gânt eu hymrwymo nad oedd yn digwydd yn 2016-2017.

## **9.3 Datblygu TG a chymorth TG**

Mae costau caledwedd a chynnal a chadw systemau TG wedi lleihau tua £1.1 miliwn wrth i gamau cychwynnol y rhaglenni Trawsnewid ac Addysg ddal gafael yn y flwyddyn flaenorol.

## 10. Gwybodaeth am gyflogeion

	2017-18 £'000	2016-17 £'000
<b>Cyflogau a chostau cysylltiedig</b>		
Cyflogau: <sup>16</sup>		
Tîm Gweithredol	977	929
Staff Eraill	<b>26,067</b>	23,677
Cyfanswm	<b>27,044</b>	24,606
Costau nawdd cymdeithasol (cyfraniadau YG y cyflogwr):		
Tîm Gweithredol	141	121
Staff Eraill	<b>2,719</b>	2,437
Cyfanswm	<b>2,860</b>	2,558
Costau pensiwn - staff presennol: <sup>17</sup>		
Tîm Gweithredol		
- Buddiannau diffiniedig	475	134
- Cyfraniadau diffiniedig	52	32
Staff Eraill		
- Buddiannau diffiniedig	<b>2,253</b>	2,641
- Cyfraniadau diffiniedig	<b>1,511</b>	1,103
Cyfanswm	<b>4,291</b>	3,910
Costau pensiwn - staff ymddeoledig sefydliadau blaenorol <sup>18</sup>	22	172
Staff dros dro a staff contractwyr:		
Tîm Gweithredol	26	139
Staff Eraill	<b>6,031</b>	6,575
Cyfanswm	<b>6,057</b>	6,714
Taliadau terfynu: <sup>19</sup>		
Tîm Gweithredol	123	20
Staff Eraill	92	176
Cyfanswm	<b>215</b>	196
Cyfanswm	<b>40,489</b>	38,156

<sup>16</sup> Gweler Nodyn 9.1.

<sup>17</sup> Gweler Nodyn 21.

<sup>18</sup> Gweler Nodyn 21.

<sup>19</sup> Mae hyn yn cynnwys taliadau cytundebol ychwanegol o £27,000, taliadau diswyddo o £43,000 a thaliadau yn lle rhybudd o £145,000 (2016-2017: taliadau diswyddo o £58,000 a thaliad yn lle rhybudd o £138,000).

## Gwybodaeth am y Tîm Gweithredol

Am ddadansoddiad o gyflog y Tîm Gweithredol (gan gynnwys aelodau interim am y cyfnod) gweler **tabl 1** yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalen 32.

<b>Bandiau cydnabyddiaeth (heb gynnwys staff interim)</b> (£)	<b>2017-18</b> <b>Nifer y staff</b>	2016-17 Nifer y staff
50,001 - 60,000	1	1
90,001 - 100,000	1	1
100,001 - 110,000	2	1
110,001 - 120,000	-	1
120,001 - 130,000	2	1
130,001 - 140,000	1	-
150,001 - 160,000	1	1
160,001 - 170,000	-	1
190,001 - 200,000	1	-
210,001 - 220,000	-	1

Yn ystod y flwyddyn, roedd benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor a wnaed i gyfarwyddwyr fel a ganlyn:

	<b>2017-18</b> <b>£</b>	2016-17 £
S Page	<b>501-1,000</b>	1,501-2,000

Roedd cyfanswm y pensiynau a gronwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2018 ar gyfer y cyfarwyddwyr hynny sy'n rhan o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yr NMC fel a ganlyn:

<b>Cyfanswm y pensiynau a gronwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth</b> (£)	<b>2017-18</b> <b>Nifer y staff</b>	2016-17 Nifer y staff
5,001 - 10,000	-	1
10,001 - 15,000	1	1
15,001 - 20,000	2	1
25,001 - 30,000	-	1
30,001 - 35,000	1	-

Mae'r cyfarwyddwyr yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr NMC.

Yn ystod 2017-2018 gwnaed cyfraniadau cyflogwyr i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar ran pedwar cyfarwyddwr, a oedd yn werth £53,000 (2016-2017: £31,531).

Darperir y pensiwn buddiannau diffiniedig drwy gynllun (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Rhydd y cynllun fuddiannau ar sail 'cyflog terfynol' ar oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, gall aelodau ddewis cyfnewid rhan o'u pensiwn am gyfandaliad di-dreth. Gallant hefyd dderbyn llai o bensiwn er mwyn darparu pensiwn i enwebai sy'n goroesi. Os bydd unigolyn yn marw o fewn pum mlynedd i'r adeg y gwnaeth ymddeol, telir cyfandaliad sy'n unol â balans y pensiwn y byddai'r pensiynwr wedi'i gael petai wedi byw am bum mlynedd ar ôl ymddeol.

Os bydd aelod yn marw mewn gwasanaeth, mae cyfandaliad yn cyfateb i ddwywaith y cyflog pensiynadwy yn daladwy a chaiff holl gyfraniadau'r aelod eu dychwelyd ynghyd â llog di-dreth cyfansawdd o 3 y cant y flwyddyn. Os bydd cyflogai presennol yn marw a bod ganddo gymar sy'n goroesi, telir pensiwn sy'n 1/60 o'r cyflog pensiynadwy hefyd, am bob blwyddyn o wasanaeth y gallai'r aelod fod wedi'i chwblhau hyd at oedran pensiwn arferol.

Gellir ymddeol am resymau meddygol os bydd analluogrwydd parhaol. Yn yr achos hwn telir pensiynau ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraid.

Mae'r NMC hefyd yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer ei staff drwy The People's Pension. Cyfrifir am y costau hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fyddant yn ddyledus. Cyfraniad sylfaenol y cyflogwr yn 2017-2018 oedd 7 y cant a chyfraniad sylfaenol staff oedd 1 y cant. Ni chaniateir i aelodau o staff fod yn aelodau o'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.

### Gwybodaeth arall am gyflogeion

Yn ogystal â'r uchod, roedd 59 (2016–2017: 45) o aelodau eraill o staff yr oedd eu cydnabyddiaeth yn dod o dan y bandiau canlynol:

	2017-18	2016-17
<b>Bandiau Cydnabyddiaeth (£)</b>	<b>Nifer y staff</b>	<b>Nifer y staff</b>
60,001 - 70,000	<b>33</b>	24
70,001 - 80,000	<b>11</b>	12
80,001 - 90,000	<b>10</b>	5
90,001 - 100,000	<b>4</b>	3
120,001 - 130,000	<b>1</b>	-
130,001 - 140,000	-	1

Cyflogwyd 712 o gyflogeion ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (uwch dîm rheoli 7 ac aelodau eraill o staff 705) ac yn y flwyddyn flaenorol cyflogwyd 681 (uwch dîm rheoli 8 ac aelodau eraill o staff 673).

## 11. Incwm net/(gwariant) am y flwyddyn

Nodir hyn ar ôl codi:

	2017-18	2016-17
	£'000	£'000
Prydlesau gweithredu:		
Cyfarpar	-	1
Adeiladau	2,320	2,346
Cydnabyddiaeth yr archwilwyr:		
haysmacintyre	21	20
NAO	6	6
Dibrisiant	<u>3,300</u>	<u>3,692</u>

## 12. Trethu

O ganlyniad i'w statws elusennol nid oes rhaid i'r NMC dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol. Nid oes rhaid iddo ychwaith dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw asedau a gaiff eu gwerthu lle y defnyddir yr elw at ddibenion elusennol.

### 13. Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

	Dodrefn	Cyfarpar	23PP Safle lesddaliad hir <sup>20</sup>	23PP Adnewyddu adeiladau	Adnewyddu Adeiladau AiY	Prosiectau TG	Gwaith cyfalaf yn mynd rhagddo <sup>21</sup>	CYFANSWM
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost:								
1 Ebrill 2017	555	9,669	15,448	5,694	6,504	1,812	896	<b>40,578</b>
Ychwanegiadau	-	487	-	-	-	-	-	<b>487</b>
Trosglwyddiadau	-	178	-	-	-	-	(178)	-
31 Mawrth 2018	<u>555</u>	<u>10,334</u>	<u>15,448</u>	<u>5,694</u>	<u>6,504</u>	<u>1,812</u>	<u>718</u>	<u><b>41,065</b></u>
Dibrisiant:								
1 Ebrill 2017	342	6,525	1,007	5,448	3,699	1,812	-	<b>18,833</b>
Tâl a godwyd am y flwyddyn	27	2,136	354	120	663	-	-	<b>3,300</b>
31 Mawrth 2018	<u>369</u>	<u>8,661</u>	<u>1,361</u>	<u>5,568</u>	<u>4,362</u>	<u>1,812</u>	<u>-</u>	<u><b>22,133</b></u>
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017	213	3,144	14,441	246	2,805	-	896	<b>21,745</b>
<b>Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2018</b>	<u><b>186</b></u>	<u><b>1,673</b></u>	<u><b>14,087</b></u>	<u><b>126</b></u>	<u><b>2,142</b></u>	<u><b>-</b></u>	<u><b>718</b></u>	<u><b>18,932</b></u>

Unwaith y caiff prosiectau gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo eu cwblhau caiff yr asedau eu hychwanegu at y Gofrestr Asedau Sefydlog.

<sup>20</sup> Gweler Nodyn 13.1.

<sup>21</sup> Gweler Nodyn 13.2.

## 13. Asedau sefydlog diriaethol i'w defnyddio gan yr elusen – parhad

### 13.1 Safle lesddaliad hir

Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd yr NMC) y buddiant lesddaliadol yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Daw'r brydles i ben yn y flwyddyn 2933. Prisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan briswyr allanol Carter Jonas, a nodwyd ei bod yn werth £17.185 miliwn. Dylid hefyd nodi bod cyfamod cyfyngol ar y brydles.

### 13.2 Gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo

Mae gwaith cyfalaf sy'n mynd rhagddo wedi'i rannu'n golofn ar wahân yn y flwyddyn gyfredol ynghyd â ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r NMC yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur y gydberthynas rhwng yr NMC a'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad yw'n atebol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'r NMC mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, talwyd cyfanswm o £63,050 i'r sawl oedd yn dal swydd y Cadeirydd (2016-2017: £48,000).

Yn ystod y flwyddyn, talwyd lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth gwerth £365,828 (2016-2017: £274,738) i aelodau'r Cyngor neu aethpwyd i'r costau hyn mewn perthynas â hwy.

Telir aelodau'r Cyngor yn uniongyrchol drwy gyflogres yr NMC.

Nodir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor ar dudalen 28 o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth.

Gwnaed cronriad o £41,731 (2016-2017: £35,609) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol posibl mewn perthynas â thaliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau.

## 15. Dyledwyr

	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Dyledwyr	542	376
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	3,541	3,543
Cyfanswm	<b>4,083</b>	<b>3,919</b>



## 16. Credydwyr

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Credydwyr a chroniadau	6,370	7,052
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	862	797
Incwm gohiriedig – ffioedd cofrestru ar gyfer 2017-2018	-	45,116
Incwm gohiriedig – ffioedd cofrestru ar gyfer 2018-2019	43,148	-
Cyfanswm	<b>50,380</b>	<b>52,965</b>

## 17. Darpariaethau

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Meddalwedd	416	-
Dadfeiliadau	-	9
Darpariaeth bensiwn – ymddeol yn gynnar	67	67
Cyfanswm	<b>483</b>	<b>76</b>

Darpariaeth meddalwedd yw cost amcangyfrifedig cydymffurfiaeth trwydded i'w phennu o hyd gan gyflenwr allanol pan fydd y gwaith profi wedi'i gwblhau. Mae ansicrwydd ynghylch amseriad a gwerth y gost felly ni all gael ei chydabod yn groniad.

Yn ystod 2012-2013 daeth y ddarpariaeth yn y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer ymddeol yn gynnar ar sail analluogrwydd parhaol i rym mewn perthynas â chyflogai. Penderfynwyd ar y swm a oedd yn daladwy gan Actwari'r Cynllun ac fe'i cymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Cydnabuwyd y swm taladwy, heb gynnwys llog, o £513,000 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn 2012-2013. Gwneir taliadau i'r Cynllun bob mis gan gychwyn ym mis Rhagfyr 2012.

## 18. Credydwyr

Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Incwm gohiriedig Ffioedd cofrestru ar gyfer 2018-2019	-	126
Incwm gohiriedig Ffioedd cofrestru ar gyfer 2019-2020	117	-
Premiwm prydles	368	485
Cyfanswm	<b>485</b>	<b>611</b>

## 19. Darpariaethau

Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Dadfeiliadau	733	609
Darpariaeth bensiwn – ymddeol yn gynnar	223	290
Cyfanswm	956	899

## 20. Statws elusennol

Ar 27 Mawrth 2002, cofrestrwyd yr NMC ar Gofrestr Ganolog yr Elusennau (rhif elusen 1091434). Yn sgil hyn caniatwyd rhyddhad ardrethi gan Ddinas Westminster. Mae'r statws hwn yn rhoi buddiannau treth hefyd<sup>22</sup>. Ar 18 Mehefin 2007, cofrestrwyd yr NMC â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

## 21. Ymrwymadau pensiwn

Mae'r NMC yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r NMC yn cymryd rhan mewn cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Tynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac NHS Education for Scotland, a oedd yn gyfranogwr blaenorol, yn ôl o'r cynllun yn ystod 2013 a 2015 yn y drefn honno. Mae'r cynllun, yr oedd tua 17 y cant o gyflogeion y CNB yn aelodau ohono ar 31 Mawrth 2018, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau i'r cynllun i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y fath fodd ag i ledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actwari cymwysedig ar sail prisiau bob tair blynedd.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf o'r cynllun ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2016, gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol o brisio. Ar ddyddiad y prisiad, roedd asedau'r cynllun yn werth £106.9 miliwn (gan gynnwys blwydd-daliadau a ddelir gan bensiynwyr yswiriedig). Roedd gwerth yr asedau yn cyfrif am 88 y cant o werth y buddiannau, a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwylidiedig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg asedau mewn perthynas â gwasanaethau yn y gorffennol yn cael ei amortyddio dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd enillion gwirioneddol o fuddsoddiadau uwchlaw cynnydd o 0.65 y cant y flwyddyn mewn cyflogau ac uwchlaw cynnydd o 0.15 y cant a -0.20 y cant y flwyddyn mewn pensiynau ar gyfer y rhai nad ydynt yn bensiynwyr a phensiynwyr, yn y drefn honno.

<sup>22</sup> Gweler Nodyn 12.

Pe bai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2016), byddai'r asedau wedi cyfrif am tua 72 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i fodloni buddiannau cronodig aelodau gweithredol a'r rhai sydd wedi gadael y cynllun a buddiannau cyfredol pensiynwyr. Byddai'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £42.8 miliwn.

Mae Cynllun Adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraidd cyfredol, erbyn 31 Mawrth 2026. Bydd yr NMC yn unioni'r diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2026 drwy wneud taliadau o dan y Cynllun Adfer sy'n cyfateb i £983,000 y flwyddyn, gyda chynnydd o 3.65 y cant bob mis Ebrill (gwnaed y cynnydd cyntaf o'r fath ym mis Ebrill 2015).

Seiliwyd prisiad FRS102 ar asesiad llawn o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Mawrth 2018.

Cydnabyddwyd enillion a cholledion actiwaraidd yn y cyfnod y gwnaethant ddigwydd.

#### Symiau a gydnabyddwyd yn y fantolen

	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Asedau ar eu gwerth teg	72,414	68,279
Gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	<u>(84,114)</u>	<u>(80,467)</u>
<b>(Diffyg)/Gwarged</b>	<b>(11,700)</b>	<b>(12,188)</b>
<b>Rhwymedigaeth net</b>	<b><u>(11,700)</u></b>	<b><u>(12,188)</u></b>

#### Symiau a gydnabyddwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SoFA)

	2017-18 £'000	2016-17 £'000
Cost gwasanaeth bresennol	(2,575)	(2,511)
Cost gwasanaeth flaenorol	-	(272)
Elw disgwylidig ar asedau cynllun (nawr o fewn "Llog Net")	1,769	2,079
Llog ar rwymedigaeth pensiwn (nawr o fewn "Llog Net")	(2,109)	(2,556)
<b>Swm net a gydnabyddwyd yn y SoFA</b>	<b><u>(2,915)</u></b>	<b><u>(3,260)</u></b>

**Cysoni gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig**

	<b>2017-18 £'000</b>	<b>2016-17 £'000</b>
<b>Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>80,467</b>	<b>71,980</b>
Cost gwasanaeth bresennol	2,575	2,511
Cost gwasanaeth flaenorol	-	272
Cost llog	2,109	2,556
Cyfraniad cyflogeion	341	415
(Elw)\colledion actiwaraidd	18	4,286
Buddiannau a dalwyd	<b>(1,396)</b>	<b>(1,553)</b>
<b>Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2018</b>	<b><u>84,114</u></b>	<b><u>80,467</u></b>

**Cysoni asedau cynllun gwerth teg**

	<b>2017-18 £'000</b>	<b>2016-17 £'000</b>
<b>Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>68,279</b>	59,355
Elw disgwylidig ar asedau	1,769	2,079
Elw)\colledion actiwaraidd	<b>(49)</b>	4,839
Cyfraniad cyflogwyr	<b>3,470</b>	3,144
Cyfraniad cyflogeion	341	415
Setliadau	-	-
Buddiannau a dalwyd	<b>(1,396)</b>	<b>(1,553)</b>
<b>Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2018</b>	<b><u>72,414</u></b>	<b><u>68,279</u></b>

**Cysoni newid mewn statws ariannu**

	<b>2017-18 £'000</b>	<b>2016-17 £'000</b>
<b>Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>(12,188)</b>	(12,625)
Costau pensiwn	<b>(2,915)</b>	(3,260)
Cyfraniad cyflogwyr	<b>3,470</b>	3,144
Newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid	-	-
Elw)\colledion actiwaraidd	<b>(67)</b>	553
<b>Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2018</b>	<b><u>(11,700)</u></b>	<b><u>(12,188)</u></b>
<b>Elw gwirioneddol ar asedau cynllun</b>	<b><u>1,720</u></b>	<b><u>6,918</u></b>

## Hanes o addasiadau profiad

	2017-18 £'000	2016-17 £'000	2015-16 £'000	2014-15 £'000
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	(84,114)	(80,467)	(71,980)	(69,105)
Asedau cynllun	72,414	68,279	59,355	52,638
<b>Gwarged\diffyg)</b>	<b>(11,700)</b>	<b>(12,188)</b>	<b>(12,625)</b>	<b>(16,467)</b>

Addasiadau profiad ar rwymedigaeth cynllun	(2,795)	2,238	1,152	1,044
Addasiadau profiad ar asedau cynllun	(49)	4,839	2,408	3,446

## Cyfraniad disgwylidig yn y flwyddyn ganlynol

	Ar 31 Mawrth 2018 £'000
Cyflogwr	3,560
Cyflogai	328
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,888</b>

Nodir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwysedig annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaethau o dan FRS102 isod.

	2018 y flwyddyn	2017 y flwyddyn	Disgwyliad oes hwy (yn 60 oed)	Blynyddoed
Cyfradd disgownt	2.55%	2.55%	Dynion a aned 1958	26.8
Chwyddiant prisiau manwerthu	3.25%	3.40%	Menywod a aned 1958	28.8
Chwyddiant prisiau defnyddwyr	2.25%	2.40%	Dynion a aned 1978	28.7
Cynnydd mewn pensiwn	3.15%	3.30%	Menywod a aned 1978	30.8
Elw disgwylidig ar asedau	2.55%	2.55%		

Cyflwynodd yr NMC gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gallai staff ymuno ag ef yn wirfoddol o 1 Tachwedd 2013, a weithredir gan The People's Pension. Cyfrannodd yr NMC gyfradd sylfaenol o 7 y cant o gyflog pensiynadwy yn ystod 2017-2018 (2016-2017: 6 y cant) a chyfradd gyfrannu sylfaenol y cyflogai oedd 1 y cant. Gall cyflogeion wneud cyfraniadau ychwanegol a bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at uchafswm cyfraniad y cyflogwr, sef 12 y cant. Mabwysiadwyd y cynllun hwn fel cynllun awto-gofrestru ar gyfer yr NMC o 1 Ebrill 2014.

	<b>2017-18</b>	2016-17
	<b>£'000</b>	£'000
Cyfraniadau'r NMC (cyflogwr) at y cynllun cyfraniadau diffiniedig a wnaed yn ystod y flwyddyn	<b>1,555</b>	1,134
	<b>1,555</b>	1,134
Cyfraniad yr NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig	<b>39.3%</b>	29.2%
Cyfraniad cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig	<b>6%</b>	6%
Cyfraniad sylfaenol yr NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig	<b>7%</b>	6%
Cyfraniad sylfaenol cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig	<b>1%</b>	1%

Mae'r NMC yn talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau a wnaeth ei ragflaenu nad ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn yr NMC. Telir y costau hyn pan fydd achos yn codi ac fe'u codir i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn unol â hynny. Yn 2017-2018 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £3,001 (2016-2017: £28,212).

## 22. Ymrwymadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2018, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar ei gyfer, nac ychwaith unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol (2016-2017: Dim).

## 23. Ymrwymadau prydles gweithredu

Ar 31 Mawrth 2018 roedd gan yr NMC y taliadau prydles gweithredu gofynnol canlynol yn y dyfodol:

	<b>Tir ac adeiladau</b>		<b>Offer a chyfarpar</b>	
	<b>31/03/2018</b>	31/03/2017	<b>31/03/2018</b>	31/03/2017
	<b>£'000</b>	£'000	<b>£'000</b>	£'000
• O fewn blwyddyn	<b>2,367</b>	2,602	-	2
• Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	<b>4,449</b>	6,169	-	-
• Mwy na phum mlynedd	<b>198</b>	844	-	-

Mae'r NMC yn prydlesu eiddo yn 61 Aldwych, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 10 Medi 2019, Clarendon House (llawr daear a chyntaf), 114–116 George Street, Caeredin, ar gyfer y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021, 1 Kemble Street, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Rhagfyr 2019 a 2 Stratford Place ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Gorffennaf 2024. Daeth cytundeb gwasanaeth yr NMC i ddefnyddio Hanover Square, Llundain, i ben ar 31 Hydref 2017.

## 24. Crynodeb amlinellol o symud cronfeydd

	Balans ar 1 Ebrill 2017	Incwm	Gwariant	Trosglwy ddiadau	Enillion/ colledion ) ar bensw buddian nau diffiniedig	Balans ar 31 Mawrth 2018
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cronfeydd digyfyngiad	41,175	87,969	(87,890)	-	(67)	41,187
Cronfeydd cyfyngedig	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm 2017-18	41,175	87,969	(87,890)	-	(67)	41,187

## 25. Asedau Net yn ôl cronfa

	Cronfeydd £'000	Cyfyngedig £'000	Cyfanswm 2017-18 £'000
Asedau sefydlog	18,932	-	18,932
Asedau cyfredol	86,259	-	86,259
Rhwymedigaethau cyfredol	(50,863)	-	(50,863)
Rhwymedigaethau hirdymor	(1,441)	-	(1,441)
Rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig	(11,700)	-	(11,700)
Balans ar 31 Mawrth 2018	41,187	-	41,187

## 26. Ailddatganiadau'r Flwyddyn Flaenorol

### 26.1 Dyranid rhwng Ffioedd proffesiynol a Chostau gweithredu

**Nodyn 7:** Yn 2017-2018, nodwyd bod £19,000 o gostau'r Pwyllgor Archwilio wedi'i ddyrannu i'r categori ffioedd proffesiynol yn y flwyddyn flaenorol. Ailddatganwyd hyn yn

nodyn 7 drwy ailddyrannu'r costau hyn i'r categori costau gweithredu gan gynyddu'r cyfanswm i £2 filiwn ar gyfer 2016-2017. Cyflawnwyd yr ailddatganiad hwn er mwyn rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol a gallu cymharu'n well o un flwyddyn i'r llall.

## 27. Offerynnau Ariannol

Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag yn achos sefydliad masnachol.

	<b>2017-18</b>	2016-17
	<b>£'000</b>	£'000
Asedau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio	<b>86,259</b>	86,169
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio	<b>(7,232)</b>	(7,849)

## 28. Datganiad Cymharol o Weithgareddau Ariannol

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 nid oedd unrhyw incwm na gwariant cyfyngedig, ac nid oedd unrhyw falans cyfyngedig a ddygwyd ymlaen.

## 29. Taliadau cytundebol ychwanegol

Roedd dau daliad cytundebol ychwanegol yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 yn creu cyfanswm o £26,769 (y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017: Dim). Gallai taliadau cytundebol ychwanegol yn y cyd-destun hwn gynnwys taliadau diswyddo a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract.

## 30. Asedau wrth gefn a rhwymedigaethau wrth gefn

Er bod cyd-drafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn mynd rhagddynt o hyd mewn perthynas â'r posibilrwydd o ad-dalu treth incwm a thaliadau Yswiriant Gwladol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol, deallwn, ers y dyddiad adrodd, fod CThEM wedi bwrw ymlaen o ran yr hawliad sy'n golygu bod setliad o'n plaid yn fwy tebygol bellach. Fodd bynnag, mae angen i CThEM gymeradwyo ymhellach sy'n golygu bod yr ased yn debygol ond nad yw'n gwbl sicr. Amcangyfrifir y telir £2.1 miliwn yn ogystal â llog a gronnwyd. Nid yw'r ased wrth gefn wedi'i gydnabod yn ddyledwr ar 31 Mawrth 2018 oherwydd, ar y dyddiad hwnnw, nid oedd y swm wedi'i meintioli'n ddibynadwy ac nid oedd digon o dystiolaeth i awgrymu y byddai'r canlyniad yn ffafriol.

Nid oedd unrhyw asedau na rhwymedigaethau wrth gefn eraill ar ôl dyddiad y fantolen.

## 31. Digwyddiadau ôl-fantolen

Gadawodd y cyn-Brif Weithredwr a Chofrestrydd y sefydliad ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018. Penododd y Cyngor Brif Weithredwr a Chofrestrydd Interim a rhoddodd



drefniadau pontio cadarn ar waith. Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd Interim wedi'i benodi'n Swyddog Cyfrifyddu Interim gan y Cyfrin Gyngor. Mae'r Cyngor wedi penodi Prif Weithredwr a Chofrestrydd parhaol a fydd yn dechrau yn y swydd ym mis Ionawr 2019.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen eraill.

Mae'r adroddiad blynyddol a chyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar y dyddiad yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

## Atodiad 1



### **The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010**

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001<sup>23</sup>.

This determination has effect from 23rd February 2010.

#### **Interpretation**

1. In this Determination-

“the accounts” means the accounts which it is the Council’s duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;

“the Charities’ SoRP” means the “Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.

“the Council” means the Nursing and Midwifery Council;

“the FReM” means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

#### **Determination**

2. The accounts must-

(a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council’s state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; a

(b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

---

<sup>23</sup> O.S. 2002/253

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP; a

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council  
Dated: 18th July 2011



CCS1018757056  
978-1-5286-0831-2